# Y GAMBO

Papur Bro De Orllewin Ceredigion

RHIF 377 MEDI 2020 £1.00

# FFRWYTH YR HAF

Nid y clawr Cyfansoddiadau ryn ni'n gyfarwydd â'i weld bob blwyddyn yw hwn, ond rhyw flwyddyn fel 'na yw hi wedi bod. Yr hyn gewch chi yn y gyfrol hon yn bennaf yw cerddi buddugol Cystadleuaeth y Stôl Farddoniaeth a'r Stôl Ryddiaith, ond hefyd y gweithiau a ddaeth yn ail ac yn drydydd. Terwyn Tomos o Landudoch a enillodd y Stôl Farddoniaeth, a Llŷr Gwyn Lewis y Stôl Rhyddiaith. Mae sylwadau'r beirniaid yma hefyd, ond yn ogystal mae cerdd yr un gan dri mab Parc Nest, ynghyd â cherddi newydd ar gyfer yr Ŵyl AmGen gan nifer o Brifeirdd Coronog a Chadeiriol y Genedlaethol dros y blynyddoedd. Gwledd yn wir! Os nad ydych chi wedi darllen y gyfrol, ewch ar unwaith i brynu copi - byddwch wrth eich boddl Mae'n flasus iawn.






*Afalau Surion Bach*



*Mwyar Duon'*

## AC O FLAS GWAHANOL



GOLYGYDD Y MIS
**Mary Jones**
Y GAMBO MIS HYDREF
Eleri Evans
Glasfryn, Tanygroes SA43 2JE
Rhif ffôn: 01239 810871   e-bost: eleri500@hotmail.com
**Pwyllgor a deunydd i mewn erbyn 29 Medi**
**Dosbarthu dydd Iau 15 Hydref 2.00yp**

PWYLLGOR GWAITH
Y GAMBO

**Cadeirydd:**
Eleri Evans (01239 810871)
eleri500@hotmail.com

**Ysgrifennydd a Clwb 500:**
John Davies, Y Graig, Aber-porth
(01239 810555)
e-bost: johnygraig@tiscali.co.uk

**Trysoryddion:** Des ac Esta Davies, Min-y-Maes, Penparc, Aberteifi SA43 1RE
(01239 613447)
e-bost: desdavies@hotmail.co.uk

**Hysbysebion:** Mair Heulyn Rees
Cefn yr Ydlan, Synod, Llandysul SA44 6JE
Rhif ffôn: 01545 580462
e-bost: mairheulyn@yahoo.com

**GOHEBWYR LLEOL**

*Aberporth:* Ann Harwood (01239 811217) manhaul@hotmail.com

*Beulah:* Gerwyn Morgan (01239 810752) gerwyn.morgansa38@gmail.com

*Blaenannerch/Tre-main:* Mary Postance (01239 810054)

*Blaencelyn:* Jon Meirion (01239 654309)

*Blaen-porth*: Nesta Griffiths (01239 810780)
Ennis Howells (07854 938114)

*Bryngwyn:* Linda Morgan (01239 711249)
Marlene Evans (01239 710708)

*Brynhoffnant:* Llinos Davies (01239 654135) llinosbengoch@yahoo.co.uk

*Caerwedros:* Aled a Heledd Dafis (01545 561355) aleddafis@gmail.com

*Ceinewydd:* Wendy Davies (01545 560344)

*Coed-y-bryn:* Yn eisiau

*Croeslan:* Marlene E. (01239 851216)

*Ffostrasol:* Emyr a Gwen Davies (01239 851343)

*Glynarthen:* Dewi Jones, Pantseirifach 01239 814609 / (07970 042101)

*Horeb/Penrhiwllan:* Beth Davies (07901 716957) bethan@cd1340.f9.co.uk

*Llandygwydd:* Yn eisiau

*Llannarth:* Isabel Jones (01545 580608)

*Llanllwchaearn:* Gwyneth Thomas

*Llangrannog:* Ceindeg Haf

*Llechryd:* Peter Hazzelby

*Maen-y-groes:* Edna Thomas (01545 560060)

*Penparc:* Melanie Davies (01239) 621329 melanie.translation@btinternet.com

*Plwmp a Phentre-Gât:* Celia Richardson a Nigel Blake, (01239 851300) nigelblake@gmail.com

*Pontgarreg:* Lynda Evans golygfa@tiscali.co.uk (01239 654277)

*Rhydlewis:* Vera Davies (01239 851489)

*Sarnau a Penmorfa:* Alison Vaughan-Jones (01239 654610) alisonvj@icloud.com

*Synod:* Mair Heulyn Rees (01545 580462)

*Talgarreg:* Heledd Gwyndaf (07794 065826) heleddgwyndaf@hotmail.com

*Tan y groes:* Elspeth Evans (01239 811026) ac Eleri Evans (01239 810871).

*Tre-saith:* Sally Jones (01239 810274)

*Y Ferwig:* Auriol Williams (01239 612507) auriolwilliams@hotmail.com

**YN EISIAU**

*Coed-y-Bryn, Llandygwydd*

Ariennir *Y Gambo* yn rhannol gan Lywodraeth Cymru

*ATGOFFA'R GOHEBWYR*

**Mae'n hollol bwysig cadw at y dyddiad cau i bob rhifyn o'r *Gambo*. Fe nodir y dyddiad ar dudalen 2 o bob rhifyn, a bydd unrhyw ddeunydd hwyr yn cael ei gario ymlaen i'r rhifyn nesaf.**

Gofynnir i bob gohebydd lleol sy'n defnyddio e-bost sicrhau ei fod wedi cael cadarnhad gan olygydd y mis bod y deunydd wedi cyrraedd yn ddiogel.

**Diolch am eich cydweithrediad.**

# GOLYGYDDOL

Gobeithio eich bod yn barod am rifyn arall o'r Gambo ar ôl saib yr haf. Bydd y rhifyn hwn ar gael fel copi caled ichi ei brynu yn y ffordd arferol, a hefyd ar-lein. A dyna yw byrdwn y neges olygyddol y tro hwn: cael eich barn am ffurf y Gambo yn y dyfodol.

Mae'r Cyfnod Clo oherwydd y feirws Covid-19 wedi gorfodi cymdeithasau a sefydliadau o bob disgrifiad i newid eu ffordd o gyfathrebu â'u 'cwsmeriaid', a dydy'r Gambo ddim yn eithriad. Mae bodolaeth y rhyngrwyd yn fendith mewn sawl ffordd: gallwch ddarllen beth fynnwch chi bron unrhyw bryd; gallwch fynd yn ôl i ailddarllen rhywbeth; rych chi'n arbed papur a'r ffwdan o gadw hen gopïau; ac yn y cyfnod rhyfedd hwn mae'n golygu nad oes rhaid ichi fynd allan o'r tŷ i brynu'ch copi.

Ond wedyn yr anfanteision o beidio â chael y Gambo fel copi caled. Dydy ein darllenwyr ni ddim i gyd yn defnyddio'r rhyngrwyd - ac mae bod hebddo yn gallu bod yn fendith yn aml! A hefyd y dewis. Pam na ddylai pawb allu dewis sut i gael eu copi? Bydd Pwyllgor y papur yn dweud wrthych hefyd fod yna nifer fawr o ystyriaethau i'w pwyso a'u mesur o ran incwm, gwariant, costau, cymorth gan y Llywodraeth, a gorfod dibynnu ar gymorth a chefnogaeth gwirfoddolwyr.

Yng nghorff y papur y tro hwn, felly, bydd holiadur byr yn gofyn ichi ddewis sut y byddech chi'n hoffi cael eich copi o'r Gambo yn y dyfodol. Tri dewis syml sydd yn yr holiadur, ac mae'n siŵr y byddwch am godi nifer o gwestiynau. Ond caiff y pwyntiau hynny eu gwyntyllu gan eich Pwyllgor ar ôl clywed beth yw barn mwyafrif ein darllenwyr.

Cofiwch anfon eich ateb, felly: dyna'r unig ffordd inni barhau i gynhyrchu'r Gambo fyddwch chi am ei ddarllen.

## Deddf Diogelu Data

*Ar Fai 25, 2018 daeth Deddf Diogelu Data i rym.*

Oni nodwch yn wahanol byddwn yn cyhoeddi'ch enw a'ch cyfeiriad o dan y canlynol:

- *Gambosair*
- *Cornel y Plant*
- *Clwb 500*


EDAF
Emyr Davies A'i Fab Cyf
T/A EH FACTORS
Unedau 1-2, Garej Garth, Penrhiwllan, Llandysul, Ceredigion, SA44 5NW
Cyflewnad helaeth o offer yn cynnwys sbaneri, disgiau greindo, byllt a nytiau, rifetiau, bytiau drilio nwyddau weldio, a paent wedi'i cymysgu mewn unrhyw lliw!
ABUS · Milwaukee · DeWALT · ABAC · Teng Tools · VARTA · Lechler · Mirka · Plasson · Senco · Bosch · Beta · Stabila · Calor · Dickies · U-POL
Dillad gwaith yn cynnwys Trowseri, Crysiau, Esgudiau, Siwtiau Troswsyg, a Siacedi Gwaith
Ffôn Swyddfa: 01559 370 733 Ffacs: 01559 371 324
Ffôn Paent: 01559 371 837 Ebost: enquiries@ehfactors.co.uk
Gwasanaeth Cyfeillgar a Proffesiynol


## DALIER SYLW

Mae rheolau'r gyfraith ar gyhoeddi lluniau o blant, boed ar bapur neu ar y We, wedi eu tynhau. Felly mae'n bwysig iawn bod pob cyfrannydd neu ohebydd sy'n anfon llun ag enw plentyn i'w cynnwys yn *Y Gambo* yn sicrhau ei fod wedi cael caniatâd rhieni neu ofalwyr y plentyn i wneud hynny. Ni fydd *Y Gambo* yn derbyn cyfrifoldeb am unrhyw fethiant i wneud hyn.


Golwg Y Mor
01545 560 430
GOLWG-Y-MÔR
Cigyddion
Ceinewydd
SA43 2HR
Tanygroes 01239 811298
Aberaeron 01545 570242
*Gellir dilifro'n lleol*
*Cymerir archebion*

# BLAENANNERCH A THRE-MAIN

Cydymdeimlwn â Cristoffer ar farwolaeth ei dad, Eirwyn Lloyd Davies, Brynheulwen. Rydyn ni'n meddwl am Sally ei fam, ac Irene, Huw a Glenys, ei frodyr a'i chwiorydd yn eu galar.

Mae aelodau'r Capel hefyd yn anfon eu cofion at deulu Sally Davies, Bryn-glas, Aber-porth, neu Sally Blaen-saith, Tan-y-groes gynt i lawer o ddarllenwyr y Gambo. Bu farw Sally yn ddiweddar yn ei 90au, ac roedd wedi bod yn yr ysbyty ers tro, ond tan hynny roedd yn aelod ffyddlon yng Nghapel Blaenannerch. Rydyn ni'n cydymdeimlo â'i phlant Meurig, Enfys a Mair, ac ag Eirian a fyddai'n dod â Sally yn gyson i wasanaethau'r Capel a digwyddiadau eraill yn y fro.



Llongyfarchiadau cynnes i John ac Eirlys Davies, Cartref ar ddathlu eu priodas Ddiemwnt yn ddiweddar. Doedd hi ddim yn bosib iddyn nhw gael dathliad mawr, ond er hynny fe ddaeth nifer fawr o'u ffrindiau a'u cymdogion heibio i ddymuno'n dda iddyn nhw a chael diferyn bach i'w yfed yn yr ardd.

Symudodd John ac Eirlys i Lynarthen ym 1993 ar ôl ymddeol, ac yna i Flaenannerch ychydig flynyddoedd yn ôl a dod yn rhan o'r gymuned yn fuan iawn. Mae John yn aelod o Gôr Meibion Blaen-porth ers rhai blynyddoedd, ac mae Eirlys yn aelod ffyddlon yng Nghapel Blaenannerch. Bu'r ddau hefyd yn aelodau o Gôr Pensiynwyr Aberteifi.

Merch o Flaen-y-coed yn Sir Gaerfyrddin yw Eirlys – ei theulu'n gymdogion i Elfed, y bardd a'r pregethwr a'r Archdderwydd. Bachgen o ardal Castell-nedd yw John, a chyfarfu'r ddau mewn dawns yn y Mwmbwls pan oedd John adre o'i Wasanaeth Milwrol ac Eirlys yn nyrsio yn Ysbyty Singleton - ac yn ei ffansio ar unwaith am ei fod yn gallu canu!

Priodwyd y ddau yng Nghapel Heol Awst, Caerfyrddin ac aeth John i weithio yn y diwydiant dur yn Llan-wern ac Eirlys yn y byd nyrsio yng Nghasnewydd. Mae ganddyn nhw ddau o blant - Siân sy'n byw yn Aber-banc, a Marc sy'n byw yn ardal Amwythig,

# PLWMP

Dathlodd Ian Mossman ei ben-blwydd yn 90 oed ym mis Awst. Mae wedi bod yn ffermio trwy'i oes ar fferm ei fab yn Nanty-bach ac yn tyfu cnydau cynhyrchiol o lysiau. Mae ei ardd yn Waun-lwyd hefyd bob amser yn hardd, yn lliwgar ac yn groesawgar.  Rydyn ni'n anfon ein dymuniadau gorau i Ian a'i deulu.

## Pobol newydd

Croeso i Andrea ac Ian Barlow sydd wedi dod o Fanceinion i fyw ym Mlaen-waun, Plwmp.

## Gwyntoedd cryf

Fel rheol bydd yr haul yn disgleirio ar Plwmp, ond roedd y stormydd yn ddiweddar yn eitha tymhestlog, a bu niwed mewn rhai llefydd. Daeth coeden fawr i lawr wrth y ffordd fawr, a daeth y llinell bŵer a'r llinell ffôn i lawr yr un pryd. Roedd y pentre a'r ardal o gwmpas heb drydan a dulliau cyfathrebu am sbel.

## Capel Pantycrugiau - Gwasanaeth cyntaf ers y cloi mawr

Erbyn i'r Gambo hwn ymddangos bydd aelodau capel Plwmp yn gobeithio bod wedi cynnal eu gwasanaeth cyntaf ers y cloi mawr ddydd Sul 13 Medi am 3pm. Mae croeso i bawb, ond rhaid i chi gofio y bydd rhai cyfyngiadau'n angenrheidiol yn ystod y cyfnod eithriadol hwn. Y Parchedig Carys Ann sydd i gynnal y gwasanaeth.

CYNNYRCH PARC Y PANT
Cross Inn, Cei Newydd

**Siop Emma/Siop Fach**

Papurau Newydd, Cylchgronau
Cacennau cartref, jam
a phicl cymysg
Bara ffres, llaeth, ffrwythau
a llysiau yn ddyddiol
Ffôn: 01545 560612

# BEULAH A BRYN-GWYN

## Y Capel a'r Cofid



*Y Parchedig Dorian Samson*

Bydd gwasanaethau wedi ailgychwyn yn yr ofalaeth yn ystod mis Medi yn dilyn helynt y feirws Cofid. Bu drysau'r pum capel ar gau ers mis Mawrth, ond ailgychwynnodd y gwasanaethau ar 13 Medi.

Gyda chytundeb yr aelodau cynhelir y gwasanaethau i gyd tan y Nadolig yng Nghapel Beulah gan fod mwy na digon o le yno i allu cadw pellter cymdeithasol rhwng pawb. Y Gweinidog, y Parchedig Dorian Samson, fydd yn cynnal y gwasanaethau dros y cyfnod o fis Medi tan fis Rhagfyr ar y dyddiadau canlynol – Hydref 4/18, Tachwedd 1/15, Rhagfyr 6/20.

Dros y misoedd diwethaf cafwyd anerchiadau ar-lein gan y Gweinidog, ac mae aelodau'r ofalaeth yn ddiolchgar iawn iddo. Ymhlith y cwisiau roedd rhai yn ymwneud â'r Beibl; emynau Caneuon Ffydd; pentrefi a neuaddau Ceredigion; capeli Cymru, a chafwyd un helfa drysor o gwmpas yr ofalaeth. Bu cystadlu brwd, ac fel y dywedodd nifer o'r aelodau, roedd yn ffordd dda i lenwi'r amser dros y cyfnod 'lockdown'.

Llongyfarchiadau i Bronwen Davies, neu Bonnie fel mae pawb yn ei hadnabod yn lleol, a oedd yn 90 oed yn ystod mis Awst. Gadawodd ei chartref ym Maesyrawel rai blynyddoedd yn ôl, ac mae nawr yn byw yng Nghartref Glyn-nest yng Nghastellnewydd Emlyn.

Llongyfarchiadau hefyd i'r Parchedig Dorian Samson a'i wraig Eleri ar ddathlu eu Pen-blwydd Priodas Arian yn ddiweddar.

### Bryn Thomas Isaac, Llain, Bryn-gwyn



Hunodd Bryn ychydig ddyddiau cyn ei ben-blwydd yn 97 oed. Cynhaliwyd ei wasanaeth angladdol ym Mynwent Capel Bryngwenith, Henllan ar 10 Gorffennaf dan ofal ei weinidog, y Parchedig Carys Ann, a chymerwyd rhan gan y Cynghorydd Lyndon Lloyd. Ni fydd neb a gyfarfu â Bryn yn gallu ei anghofio, oherwydd UN Bryn Isaac oedd. Cymeriad unigryw yn yr ardal, dyn llawn gallu a hiwmor oedd yn meddu ar ddywediadau crafog. Meddai ar ymadroddion bachog a di-flewyn-ar-dafod. Cynigiai wasanaeth MOT ar feiciau modur, ac roedd awyrennau Spitfire yn bwysig yn ei fywyd, a bu ganddo ran flaenllaw yn datblygu awyrennau bach 'radio control'. Roedd ei angladd, fel roedd Bryn wedi dymuno,
dan ofal gofalus Maldwyn Lewis, Penrhiw-pâl.

# TAN-Y-GROES

Pen-blwydd hapus i Nansi Davies, 3 Heol Enlli sydd newydd ddathlu ei phen-blwydd yn 80 oed, ac i Angharad Jones, 6 Heol Enlli sydd newydd gyrraedd 40 oed.

A llongyfarchiadau i Wyn Davies, Llecyn Siriol sydd newydd ddathlu ei ben-blwydd yn 40 oed.

Cydymdeimlwn â Lynette Green a'r teulu yn Shirleydale ar golli tad, dad-cu a hen dad-cu annwyl a oedd yn byw ym Moncath.

A rydyn ni'n cydymdeimlo â theulu'r diweddar Sally Davies, gynt o Flaen-saith, ar golli mam, mam-gu a hen fam-gu annwyl.

Dymunwn wellhad buan i Lawrence, Maple House sydd wedi bod yn yr ysbyty yn ddiweddar, ac i Greta Snow, Hafan sydd yn yr ysbyty ar hyn o bryd wedi damwain yn ei chartref.

Llongyfarchiadau i Tomos Powell, Gernos ar ei ganlyniadau TGAU, a phob lwc iddo ym mlwyddyn 13 yn Ysgol Bro Teifi.

Llongyfarchiadau hefyd i Marged Evans, Albar ar ei chanlyniadau Lefel Uwch a phob lwc iddi hithau yn y Brifysgol yng Nghaerdydd.

Llongyfarchiadau cynnes i Ivor Williams, Delfryn, Tan-y-groes ar ddathlu ei ben-blwydd yn 90 oed yn ddiweddar. Yn y llun mae ei Weinidog y Parchedig Carys Ann a Rhian Evans, Ysgrifennydd Capel Glynarthen, yn cyflwyno hamper i Ivor a'i wraig Betty oddi wrth aelodau Capel Glynarthen gyda'u dymuniadau gorau a'u diolch i Ivor am bob cymorth, ffyddlondeb a chefnogaeth ar hyd y blynyddoedd.




**FFENESTRI C & H**

*Cyflenwyr :*

- ffenestri
- drysau
- estyniadau gwydr
- unedau gwydr (dwbl a sengl)

mewn PVCu, alwminiwm a phren caled

Ffoniwch Huw Brown: (01239) 858912 (Nos)



LEWIS Gwasanaeth Angladdau Funeral Services

Maldwyn Lewis ***Ymgymerwr Angladdau***

***Afallon, Penrhiw-pâl, Llandysul***

**Ffôn 01239 851 005 neu 07760 778 514**

Yn gwasanaethu ardal Y Gambo

*Cwmni teuluol yn cynnig gwasanaeth a chyngor proffesiynnol mewn profedigaeth ers dwy genhedlaeth*

Perfect Choice Funeral Plans · Avalon · Golden Charter

**www.lewisfunerals.co.uk**



Graham Jones

**Gwasanaethau Cyfrifiaduron**

★ Datrys Problemau a Trwsio Cyfrifiaduron
★ Ymweliadau yn y Cartref o £45
★ Cyfrifiaduron, Gliniaduron a Pherifferolion ar Werth
★ Gwasanath Adfer Data, Lluniau a Ffeiliau
★ Gwasanaeth Dylunio Gwefannau

Ffôn: 01545 560776
neu: 07715740777
www.tynici.com graham@tynici.com

# FFOSTRASOL

Dymuniadau gorau a llongyfarchiadau i May Jones, Coed-y-glyn ar ddathlu ei phen-blwydd yn 97oed, ac i Hywel Lloyd, 2 Llys-gwyn yn 91 a Johnny Jones, Pencaeau sy’n 90 oed.

Ac i Steffan Evans, Rhos-y-coed ar ei lwyddiant yn ei arholiadau Safon Uwch, ac i Carwyn Thomas, Miraenog, Lowri Davies, Rhosawel, Buddug Horscroft, Troedyrenfys a Bleddyn Jones, Bryn Derwen i gyd wedi llwyddo yn eu harholiadau TGAU.

Dymuniadau da i’r rhai o’r ardal sydd wedi graddio o brifysgolion Caerdydd, Dion Davies, Ger-y-grug, Mared Jones, Caer-gof a Sara Patterson, Blaenbedw.

Llongyfarchion cynnes i Emyr Llewelyn, Tŷ’r Ardd ar gael ei anrhydeddu gan yr Orsedd. Dylai fod wedi ei arwisgo yn ystod y Steddfod Genedlaethol yn Nhregaron ym mis Awst, ond bydd ganddo nawr ddigon o amser i ymarfer gwisgo’r wisg werdd erbyn blwyddyn nesaf.

Dymunwn yn dda hefyd i Carol Davies, Rhosawel ar ei swydd newydd gydag Ambiwlans Cymru wedi 31 o flynyddoedd yn Ysgol Gynradd Aber-porth. A dymuniadau gorau hefyd i Hawis Lloyd yn ei swydd newydd yn yr Adran Gymraeg yn Ysgol Bro Pedr.

Anfonwn ein cofion cynnes a’n dymuniadau da am wellhad buan i Huw Jones, Tresi Aur a Len Evans, Gelli Aur.

Rydyn ni’n cydymdeimlo hefyd â Jan Jones, Castell ar farwolaeth ei thad, ac â Helen Williams, Ffosybeili ar farwolaeth ei mam.

Llongyfarchiadau cynnes unwaith eto i Emyr Davies, Pen-rhiw ar ennill tlws Coffa Emyr Oernant am y gerdd ysgafn orau yng nghyfres Talwrn y Beirdd BBC Cymru.  Mae Emyr wedi bod yn aelod o dîm Ffostrasol ers y gyfres gyntaf yn 1979.

# SYNOD

Dathlu’r hanner canfed pen-blwydd ac ymddeol

Pob dymuniad da i Anwen, Synod Uchaf sydd wedi ymddeol o’i swydd fel Dirprwy Bennaeth Ysgol Gyfun Aberaeron.  Fe fu’n athrawes Cemeg yno am flynyddoedd maith ac mae nifer o ddisgyblion wedi elwa o’i harbenigedd yn y pwnc.  Pen-blwydd hapus hwyr iddi hefyd a hithau’n flwyddyn arbennig iddi.

Cydymdeimlir yn fawr â theulu Ray Williams, gynt o Benlôn a Heddfan. Fe fu Ray yn weithgar iawn gyda Merched y Wawr a byddai wedi bod yn brysur iawn yn ystod y cyfnod hwn yn paratoi tsiytni a jam ac yn rhannu’r cynnyrch gyda’r cymdogion.  Cynhaliwyd ei hangladd yn Eglwys Gwenlli ar 27 Awst.



**Coda dy wely a gyrra** – Dyna sut oedd hi nôl ym mis Gorffennaf a mis Awst. Pobol hyd yn oed yn gwersylla wrth ymyl hewl brysur yr A487 rhwng Synod a Gwenlli.

# RHYDLEWIS

Llongyfarchiadau i Llŷr Dôl-wen, Holly Ffynnon Haul, ac Aaron Moylon ar eu pen-blwyddi yn 18 oed.  Gobeithio eich bod wedi mwynhau’r dathlu a phob lwc i’r dyfodol.

Llongyfarchiadau i Ffion Jones a Jassmine Hussein ar eu llwyddiant yn yr arholiadau TGAU. Pob hwyl yn y dyfodol.

Gwelwyd Gareth Davies, y cogydd o Fro Hawen, yn cael ei gyfweld ar y teledu gan Iola Wyn am y trefniadau ynglŷn ag ailagor busnesau bwyd. Gwelsom Gareth hefyd yn croesawu cwsmeriaid i fwyta, yn y tu allan yn unig, ar ôl gwneud trefniadau arbennig ar eu cyfer yng Ngheinewydd, lle mae Gareth yn gofalu am y gegin.

### Y Cerddwyr

Mae Cerddwyr Rhydlewis wedi ailddechrau ar eu teithiau. I gael manylion cysylltwch ag Alan Davies ar 01239 851605 neu Malcolm Davies ar 01239 851677.

# CROESLAN

Llongyfarchiadau mawr iawn i'r awdur Ifan Morgan Jones am gipio tair gwobr yng nghystadleuaeth Llyfr y Flwyddyn eleni. Daeth Ifan i'r brig gyda'i nofel Babel mewn tri chategori, sef Llyfr y Flwyddyn 2020, categori Ffuglen a Gwobr Barn y Bobl Golwg 360.

Cyfarchion a dymuniadau gorau i Ray Tobias sydd wedi dathlu pen-blwydd arbennig yn 90 oed yn ddiweddar.


Rydyn ni'n cydymdeimlo â Michael Thomas a Sharon a'r teulu i gyd ar golli Ena Thomas, mam, mam-yng-nghyfraith, mam-gu a hen fam-gu, gynt o Bontweli ond yn byw yn Oban yn yr Alban.

Gwellhad buan i Heather Tugwell sydd wedi cael triniaeth yn yr ysbyty ond sydd bellach wedi dod adre.

Llongyfarchiadau i'r rheiny yn y pentre sydd wedi cael canlyniadau arholiadau yn ddiweddar. Pob hwyl i bawb sy'n mynd nôl i'r ysgol neu ar eu ffordd i goleg neu brifysgol.

# ABER-PORTH

## Cyhoeddi Llyfr - *Into the Eye of the Yemen*




Mae Derrick Clarke, Parc y Plas wedi cyhoeddi llyfr yn adrodd ei hanes yn y Lluoedd Arfog, gan gynnwys ei brofiadau cyffrous yng Ngogledd Iwerddon, Aden a thu hwnt, Cewch ei ddilyn hefyd i wlad Yemen, un o'r mannau mwyaf peryglus ar wyneb y ddaear.

Ganed Derrick Clarke ym mhlwyf Great Barr yn Swydd Stafford, ac ar ddiwedd ei gyfnod yn yr ysgol cafodd brentisiaeth mewn peirianneg.

Mae ei lyfr yn gofnod difyr o'r profiadau a gafodd nifer fawr o fechgyn tebyg iddo yn ystod eu Gwasanaeth Milwrol. Gallwch brynu'r llyfr drwy Amazon, neu'n uniongyrchol oddi wrth Derrick am bris is yn:

Sŵn yr Afon, Parc y Plas, Aber-porth . SA432BJ    Rhif teleffon 079-741-45361

## Colled

Roedd ei chyfeillion a'i chydnabod niferus yn drist iawn o glywed am farwolaeth Sandra Williams, Parc y Plas yn ddiweddar ar ôl bod yn yr ysbyty am gryn amser. Roedd ei gŵr Neville wedi marw ychydig fisoedd yn ôl.

Pan oedd yn byw ar fferm y Warin ym Mhen-parc, roedd Sandra yn adnabyddus yn ardal Aberteifi am flynyddoedd fel Cynghorydd Tref ac fel Maer Aberteifi. Wedyn bu'n cynrychioli Aberteifi ar Gyngor Sir Dyfed a Chyngor Sir Ceredigion. Yn ystod ei gwasanaeth cyhoeddus bu'n weithgar yn sefydlu'r uned pelydr-X yn Ysbyty Aberteifi, ac wedyn Gofal Canser Aberteifi. Rydym yn cydymdeimlo â'r teulu i gyd.

A chollwyd gŵr arbennig arall yn ddiweddar yn 101 oed. Roedd y Capten Jan Borysiewicz yn preswylio yng Nghartref yr Hafod pan fu farw ddechrau mis Awst. Cyn hynny roedd wedi byw yn Heol-y-graig gyda'i ferch Lilianna a'i fab-yng-nghyfraith Dafydd Jones. Rydyn ni'n anfon ein cofion at ei deulu i gyd. Mae ychydig o hanes ei fywyd diddorol ar dudalen 22.

# LLANNARTH

Llongyfarchiadau i Eleri a Trystan Lewis ar enedigaeth eu mab Gruffydd, ŵyr i Dilwen a Gwyn, Cae Martha.

A hefyd i Gethin a Rebecca, Gilfachreda ar enedigaeth eu merch Hana, sy'n wyres i Teresa a Brian ac yn or-wyres i Gareth ac Enid.

Dymuniadau gorau a phen-blwydd hapus i Elfed Jones, Brynfa ar ddathlu ei ben-blwydd yn 80 oed.

A rydym yn anfon ein cofion at James Davies, Penrhiw-las sydd yn Ysbyty Bron-glais.

Croeso i Jan Walker sydd wedi dod i fyw yn 9 Cae Martha.

Ond cafwyd colledion hefyd yn ddiweddar. Cydymdeimlwn â Gwyneth Jones, Mydroilyn a'r merched, Gillian a Janet, ar farwolaeth Haydn Jones.

Anfonwn ein cofion hefyd at Dylan Jones a'r teulu, Pantcefen ar farwolaeth Enidwen Jones, Ffos-y-ffin.

Ac rydym yn cydymdeimlo â Denise Davies a'r teulu, Pen-cae ar farwolaeth Dilwyn Jones, Tŷ Cornel, Cross Inn.

# GLYNARTHEN A BETWS IFAN

Pen-blwydd hapus i Mabli Glwys, Bryncelyn, Betws Ifan ar ddathlu ei phen-blwydd cyntaf ar 25 Gorffennaf.

Llongyfarchiadau i ddisgyblion Ysgol Uwchradd y ddau bentref ar eu llwyddiant academaidd yn ystod yr haf, a phob lwc i'r sawl fydd yn mynd i brifysgolion, colegau, prentisiaethau, i fyd gwaith neu ddychwelyd i'r ysgol.

A llongyfarchiadau i Marc Jones, Pantseiri-fach gynt, ar ennill gradd MSc yn ystod yr haf a phob hapusrwydd iddo ef a'i deulu ym mhentref Llechryd.

Cystadleuaeth Bwgan. Trefnwyd y gystadleuaeth eleni eto ym mis Awst a bu sawl cynnig. Pan ddaw enwau'r enillwyr i law, caiff y rhestr ei chynnwys yn rhifyn nesaf y Gambo.

Diflannu. Ble mae arwydd y pentref wedi mynd o gyfeiriad Bwlch-crwys? Dyw e ddim wedi bod ei le ers amser.

Ac i ble mae'r blwch post wedi mynd ger y Ficerdy/Lion? Ai oherwydd diffyg defnydd mae'r Post Brenhinol wedi ei waredu? Does dim blwch post nawr felly ym mhentref Betws Ifan.

# PONTGARREG



Llongyfarchiadau i Ros a Russ, Tawelfor, Pontgarreg ar ddiwrnod eu Partneriaeth Sifil ar 20 Awst. Dathlwyd yr achlysur gyda phicnic. Dymunwn ymddeoliad hapus i ddau aelod gweithgar o'n cymuned leol. Ymddeolodd Deio Evans, Golygfa, Pontgarreg ddiwedd mis Mehefin. A bydd niferoedd lu o'i chydnabod a'i ffrindiau yn dymuno ymddeoliad hapus i Philippa Gibson, Heol Hawen. Mae wedi rhoi'r gorau i ddysgu Cymraeg i Oedolion yn yr ardal, ar ôl cyfnod hir a llwyddiannus iawn. Ond peidiwch â digalonni, chi ddysgwyr: bydd y gwaith yn parhau mewn dwylo cadarn yn yr un ffordd. Ac nid segura fydd Philippa, fel y byddwch yn dychmygu: mae wedi ymroi i helpu trefnu gweithgareddau Gwrthryfel Difodiant yn lleol.

Mae'n bleser croesawu Cymraes fach newydd i'r byd. Ganwyd Mali Fflur i Rhodri a Lisa Dixon, Maesypentre, Pontgarreg, chwaer i Efa ac Eben ac wyres i Barry a Jaci Evans. Llongyfarchiadau i'r teulu oll.

# SARNAU A PHENMORFA

Dymunwn bob llwyddiant i Kate a Huw Reed, Pantygenau a'u staff ar eu menter newydd, sef caffi Tafell a Thân ar Lan y Môr yn Llangrannog.

Rydym yn cydymdeimlo'n ddwys â Jenny Davies a'i theulu, Temple Bar, ar golli ei thad yn ystod y cyfnod clo.

A hefyd â Jeanette Hutton, Bryneirin Lodge, a'i theulu ar golli ei gŵr fis diwethaf.

Cydymdeimlwn hefyd â Gerwyn Watkin, Dyffryn Hoffnant, a'i chwaer Anna a'i theulu, ar golli eu mam, Mrs Eluned Watkin, y mis diwethaf. Roedd Mrs Watkin wedi bod yn preswylio yng Nghartref Henllan er peth amser.

Gwraig o ben ucha'r Sir oedd Eluned, yn un o bedwar o blant fferm Rhos-goch, Llanilar. Ym 1952 priododd ag Alun Watkin a ganed iddynt ddau o blant, Gerwyn ac Anna. Yna ym 1960 symudodd y teulu i fferm Dyffryn Hoffnant ym Mhontgarreg, ac ar ôl marw Alun cymerodd y mab at waith y fferm, er y byddai Eluned hefyd yn brysur gyda'r goruchwylion, oherwydd roedd ganddi ddiddordeb mawr mewn garddio. Roedd yn aelod ffyddlon yng Nghapel Penmorfa, lle bu'n Ysgrifennydd Cyhoeddiadau am flynyddoedd lawer.

Er i Eluned dreulio dros hanner can mlynedd yn yr ardal hon, roedd Llanilar a Chapel Bethania yn agos iawn at ei chalon. Byddai'n ceisio mynd i unrhyw gyrddau arbennig yno, a soniai'n aml am y Cyfarfod Mynydd, pan gynhelid gwasanaeth yn yr awyr agored ym mis Awst.

Bu farw Eluned ryw bythefnos ar ôl ei phen-blwydd yn 96 oed, a chladdwyd ei gweddillion ym Mynwent Penmorfa.

# LLANLLWCHAEARN

Croeso. Hyfryd iawn yw cael croesawu Cymry ifanc i bentre Cross Inn. Mae Gwenllian a Dai wedi dod i fyw i 8, Stad Pen-cnwc Isaf; Dwynwen a'i phartner i Glasgoed, Clos Pen-dre; a Gareth Evans, y Saer, a'i deulu i Pant Glas. Rwy'n sicr y byddwch i gyd yn hapus yn ein plith.

Genedigaeth. Ond pwy sydd wedi cyrraedd yn ystod mis Awst? Wel, Idris Jac i Bro Mebyd, Maesyrhalen, mab i Catrin ac Euros Llwyd ac ŵyr cyntaf i Meryl a John Lloyd, Ffynnon-las.

I'r Coleg. Dymuniadau gorau i Sara Eades, Tir Nant (yr Hen Bost) a fydd yn cychwyn ar Gwrs Nyrsio yng Ngholeg Prifysgol Abertawe ym mis Medi, ac i Endaf Williams, Ffynnon-gerdd a fydd yn dechrau er gyfnod prentisiaeth gyda Qinetiq yn Aber-porth.

Mae'n drist gorfod cofnodi marwolaeth Dilwyn Jones, Tŷ Cornel. Rydyn ni'n cydymdeimlo'n ddwys â chi fel teulu. A chofiwn hefyd am deulu Brian Davies, Crudyrawel a fu farw yn Ysbyty Treforys. Rydym yn cydymdeimlo â'i weddw, Edwina, a'i frawd, Cledwyn a theulu Ffynnon-gerdd.

# TALGARREG

Pen-blwydd hapus i William John a Margaret, y Glyn, y ddau wedi dathlu eu pen-blwydd yn 80 yn ddiweddar.  Llongyfarchiadau i Eleri a Dyfrig, Pant-swllt ar enedigaeth Rhun Abel Davies. A llongyfarchiadau i Mary ac Arwel, Bryndelyn ar ddod yn fam-gu a dad-cu unwaith eto.  Llongyfarchiadau i Mrs Bethan Jenkins ar ei phenodiad yn brifathrawes barhaol Ysgol Talgarreg. Croeso i Carol Smith nôl i'r ardal. Mae Carol yn brysur yn ymgartrefu yn Tŷ Canol.

Llongyfarchiadau i'r rhai hynny yn y pentref a gafodd eu canlyniadau TGAU a Lefel Uwch eleni.  Enillwyr Clwb 100 Mehefin, Neuadd Talgarreg:

Elin Dafydd, Caermeini; Wendy Griffiths, Gwêl y Cwm; Betsan Lloyd, Hafan Cletwr;
Keith Jones, Pantycetris

## Cylch Meithrin Talgarreg


Mae Cylch Meithrin Talgarreg yn rhan o'r cynllun 'Bag 2 School' sy'n dechrau ym mis Hydref. Bydd yr elw'n mynd at Gylch Meithrin a Ti a Fi Talgarreg. Casglwch eich nwyddau ynghyd, ac fe fydd trefniadau'n cael eu cyhoeddi cyn hir sut i gasglu eich bagiau. Os hoffech gael cyflenwad o fagiau'r cwmni, cysylltwch â Teleri Morris-Thomas neu e-bostiwch cylchtalgarreg@outlook.com <mailto:cylchtalgarreg@outlook.com>. Mae'r cynllun yn derbyn yr eitemau canlynol mewn 'cyflwr da' -
dillad menywod, dynion a phlant; esgidiau (parau, wedi'u clymu);
bagiau; hetiau; belts a theganau meddal.

**NODYN WRTH Y TRYSORYDD**
Dalier Sylw: Dylai pob siec o hyn allan fod yn daladwy i *Y Gambo*
Mae'r nodyn hwn yn diddymu y neges yn rhifyn Ebrill 2019.

**Tabernacl, Aberteifi**
Os am gynnal bore coffi
neu achlysur tebyg,
mae'r festri ar gael i'w llogi.
*Am fanylion pellach,*
*cysylltwch â'r ofalwraig*
**01239 613514**

## BLAEN-PORTH

Llongyfarchiadau i Alun Bryn Rennolf, Garthowen ac Elen Fon Lewis, Morfa-Nefyn, ar eu priodas ym Mis Gorffennaf. Mae Alun yn Athro yn Ysgol Gyfun Gŵyr ac Elen ar fin dechrau ar gwrs mewn Cwnsela yn Rhydaman. Pob dymuniad da iddynt yn eu cartref newydd yn Nhreforys.



Croeso i Mr a Mrs Richard Sweetland sydd wedi symud i Bant-coch o Swydd Hertford. Gobeithio y byddwch yn hapus yn ein plith.

Roedd yn braf clywed enw Blaen-porth ar raglen Siân Cothi yn ddiweddar. Roedd hi a'i rhieni wedi galw yn Taten Eirw am bryd o sglodion blasus.

Rydym yn dymuno gwellhad buan i'r ardalwyr sy'n anhwylus ar hyn o bryd. Rydyn ni'n meddwl amdanoch ac yn danfon ein dymuniadau da atoch, yn enwedig os ydych yn gaeth i'ch cartrefi.

A dymunwn longyfarch Hywel James, Pant-glas gynt, a Martin, Blaen-nant gynt, ar eu pen-blwydd yn 70 oed ill dau.

**Gall unrhyw un sydd ag anhawster darllen glywed eitemau o'r *Gambo* drwy gysylltu â**

Llyfrau Llafar Cymru
Tŷ Llafar, Parc Dewi Sant
Heol Ffynnon Job
Caerfyrddin SA31 3HB
01267 238225
llyfraullafarcymru@carmarthentown.com


Aelwyd gartrefol Gymraeg
Bwyd maethlon
Gofal arbennig
24 awr y dydd
☎ 01559 371 293

**CARTREF HENLLAN**

Perchennog: Mr G T Williams
Metron: Jackie Cannell
Is Reolwraig: Camwy Griffiths

**GAREJ WAUNLWYD**

**Gwaith atgyweirio ceir a.y.y.b.**

***Gwaith o safon uchel bob amser***

**Sefydledig ers 1992**

**Waunlwyd, Llangrannog. SA44 6RT**

**Ffôn: 01239 654931**

**ARWYN VOBE ACCOUNTANCY LTD.** ACCA

CYFRIFYDD ARDYSTIEDIG SIARTREDIG
Maesowen, Rhydowen, Llandysul, Ceredigion, SA44 4PY
136 Maesglas, Aberteifi. SA43 1AS
Ffôn: 01239 571005 Symudol: 07557 448234 E-bost: arwyn@avaccountancy.cymru

❖ Cyfrifon Blynyddol ac Interim
❖ Ffurflenni Treth Personol ac i Gwmnïau
❖ Cadw Llyfrau gan gynnwys Ffurflenni TAW
❖ Cyflogau a CIS
❖ Cyngor Cyffredinol i Fusnesau ac Unigolion

Gwasanaeth effeithlon prydlon gyda gwên gyfeillgar!

**Ffoniwch ni ar 07557 448234 neu ebost arwyn@avaccountancy.cymru**

## RHOWCH EICH BARN

Mae angen i'r Pwyllgor gael gwybod sut hoffech chi gael eich copi o'r Gambo yn y dyfodol. Mae'n bosib ei ddarparu drwy lawer dull, ond ar hyn bryd hoffai'r Pwyllgor wybod beth fyddai eich dewis chi:

**A.** **Gallu cael copi caled drwy ei brynu mewn rhyw ffordd;**

**B.** **Gallu gweld copi ar wefan Bro 360 a thalu mewn rhyw ffordd;**

**C.** **Gallu talu am gael copi caled a gallu ei ddarllen ar wefan Bro 360 a thalu mewn rhyw ffordd.**

Anfonwch eich ymateb at unrhyw aelod o'r Pwyllgor neu'r Trysoryddion Des ac Esta Davies, neu codwch y ffôn. Gwnewch hyn **ERBYN 29 MEDI** os gwelwch yn dda, pan fydd y Pwyllgor yn cwrdd.

## Prosiect Arbennig Moroedd a Threftadaeth Môr Cymru gan Dr Fiona Draper

Oes gennych chi atgof arbennig am y bywyd gwyllt o amgylch arfordir Cymru neu am ein treftadaeth môr? Stori dda i'w hadrodd neu lun i'w rannu?

Prosiect arfordir ledled Cymru yw Moroedd Byw Cymru sy'n cael ei drefnu gan Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru ac Ymddiriedolaeth Natur De a Gorllewin Cymru, diolch i'r arian sydd wedi'i godi gan bobl sy'n cymryd rhan yn y Loteri Genedlaethol a'r Loteri Cod Post.

Boed yn atgofion am blentyndod neu'n straeon gan eich tad-cu a'ch mam-gu, meddwl sut mae'r môr wedi newid, lluniau, llythyrau neu hen gasgliadau o gregyn … mae'n bwysig iawn rhannu straeon fel hyn, yn enwedig y rhai sy'n cael eu trosglwyddo o genhedlaeth i genhedlaeth.

Fe wyddom fod ein moroedd wedi cyrraedd trobwynt, a rydyn ni'n credu bod pobl leol, cymunedau lleol a pobol sy'n ymweld â'r arfordir yn allweddol i helpu newid dirywiad bywyd gwyllt y môr. Drwy'r prosiect hwn bydd yr Ymddiriedolaethau Natur yn astudio, yn cofnodi ac yn rhannu atgofion pobl am y môr, o eiliadau arbennig i straeon am bysgota a syniadau sut mae amgylchedd y môr yng Nghymru wedi newid.


Caiff yr atgofion eu casglu a'u harddangos yn archif weledol Moroedd Byw Cymru a gall unrhyw un droi at yr archif. Bydd hanesion ar gael mewn amrywiol gyfryngau, gan gynnwys ffurf ysgrifenedig, ffotograffau, sain a fideo. Eisoes mae'n bosibl gweld rhai o'r eitemau niferus sydd wedi'u hanfon at yr Ymddiriedolaethau Natur yn y casgliad Gwerin Cymru.

Os oes gennych atgofion yr hoffech eu rhannu gyda'r prosiect, cysylltwch â Beth Thompson a thîm y Prosiect Moroedd Byw yng Ngheinewydd: https://livingseas.wales/share-your-sea-stories-with-us/submit-your-sea-story/

E-bost: livingseas@welshwildlife.org    Ffôn: 01545 560224







## NEGES GAN EIN CYNRYCHIOLWYR SENEDDOL ELIN JONES *AS* A BEN LAKE *AS*

## GWYBODAETH BWYSIG

Blwyddyn ddiwylliannol newydd dda i chi i gyd!

Er gwaethaf amgylchiadau anodd a heriol y misoedd diwethaf, gobeithio eich bod wedi cael cyfle i fwynhau gwyliau'r haf, wedi treulio amser gyda theulu a ffrindiau, ac wedi gallu crwydro a mwynhau'r hyn sydd gan Geredigion i'w gynnig unwaith eto.



Fe wyddom fod cadw cysylltiad â phobl wedi bod yn gwbwl hanfodol dros y misoedd diwethaf, a gyda chynifer o bobol wedi gorfod addasu i weithio a dysgu gartre, mae'r galw am gysylltiad band eang cyflym a dibynadwy yn fwy amlwg nag erioed.

O gyfarfodydd Zoom i wylio cyfresi Netflix; o gynnal cwisiau rhithiol i wneud gwaith cartref ar-lein – mae band eang cyflym a dibynadwy wedi chwarae rhan allweddol yn ein bywydau bob dydd. Mae'r we hefyd wedi chwarae rhan bwysig wrth helpu brwydro yn erbyn unigrwydd ac iselder yn ystod y cyfnod clo.

Yn anffodus, mae nifer fawr o gartrefi yn dal i orfod dioddef cysylltiad band eang araf ac annibynadwy, ac mae'r argyfwng diweddar wedi tynnu sylw at y sefyllfa ddiffygiol ac annerbyniol yng Ngheredigion ar hyn o bryd.

Rydyn ni wedi cael nifer o gyfarfodydd gydag Openreach, BT ac Ofcom dros y cyfnod clo ac yn parhau i bwyso ar Lywodraeth Cymru a San Steffan i weithredu'n ddiymdroi i wella'r sefyllfa. Yn sgil hynny, roeddem yn falch iawn clywed yn ddiweddar fod Ceredigion wedi cael ei dewis i gymryd rhan mewn cynllun peilot band eang newydd.

Golyga hyn bod pob cartref a busnes yng Ngheredigion, sydd â chyflymder band eang llai na 30 Mbps, yn gymwys i gael grant trwy'r Gronfa Uwchraddio Band Eang. Yn ogystal â hyn, mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi y bydd yn ychwanegu at werth y grant, sy'n golygu y gallai cartrefi hawlio hyd at £3,000 o grant, a busnesau'n gallu hawlio hyd at £7,000. Bydd y cyllid sydd ar gael yn rhoi grant i breswylwyr a busnesau tuag at y gost o osod band eang yn eu heiddo.

Beth sydd angen i chi ei wneud nesaf?

Rydym yn annog pob etholwr sydd â chyflymder o lai na 30Mbps i gofrestru ei ddiddordeb drwy'r ddolen ganlynol: https://broadband-upgrade-fund.campaign.gov.uk. Y dyddiad cau i gofrestru yw **30 MEDI 2020**.

Ni fydd cofrestru'n gwarantu y byddwch yn cael cysylltiad band eang cyflym yn eich eiddo - ond po fwyaf o bobol sy'n cofrestru, mwyaf tebygol fydd cyflenwr masnachol yn cydnabod y galw ac yn manteisio ar y cyfle i gysylltu clwstwr o gartrefi mewn ardal benodol. Os hoffech gysylltu â ni am y cynllun hwn, neu unrhyw fater arall, mae croeso i chi gysylltu â ni: elin.jones@senedd.cymru / ben.lake.mp@parliament.uk

(Gol. Nid camgymeriad yw'r AS ar ôl enwau Elin Jones a Ben Lake uchod. Mae'r ddau'n aelodau o ddau sefydliad gwahanol, wrth gwrs, Elin Jones yn Aelod o'r Senedd (AS) a Ben Lake yn Aelod Seneddol (AS)!)

EDAF
Emyr Davies A'i Fab Cyf
Gwaith Adeiladu a Pheirianeg Sifil
Bwlchmawr,
Ffostrasol,
Llandysul,
Ceredigion,
SA44 4TD
Ffôn a Ffacs: 01239 858 918
Symudol: 07971 004 582
Ebost: emyr@talk21.com
Cysylltwch a ni am unrhyw fath o waith adeiladu!
Gwasanaeth Cyfeillgar a Proffesiynol

Brodwaith Teifi Embroidery
4 Cornel Pendre, Aberteifi SA43 1JL
Ffon: 01239 615030 / 07971 763272
Ebost: anne@teifiembroidery.co.uk
Gwefan: teifiembroidery.co.uk
Printio | Corfforaethol
Gwniadwaith | Gwisg waith
Gwisg Ysgol | Anrhegion
Clybiau Chwaraeon | Priodasau

# ALLWCH CHI HELPU?

Allwch chi helpu trwy ddod yn gyfaill i berson hŷn yng Ngheredigion?

Mae Cyfeillio Cysylltu Bywydau / Befriending Life Links, prosiect newydd gan Age Cymru Dyfed, yn chwilio am wirfoddolwyr.

Cysylltwch â'r cydlynydd Sue Lewis. Dyma'r manylion:

Cydlynydd Cyfeillio'n Cysylltu Bywydau, Age Cymru Dyfed, Uned 16, Canolfan Teifi, 2 Pen-dre, Aberteifi SA43 1JL 01239 615556 / 07402 255010 suelewis@agecymrudyfed.org.uk www.ageuk.org.uk/cymru/dyfed/

# DIOLCHIADAU

Dymuna Vera, Sian, Ceri a Rhian a theulu'r diweddar Dai Pen-dre ddiolch o galon am bob arwydd o gydymdeimlad a charedigrwydd a estynnwyd iddynt yn eu profedigaeth.

Diolch hefyd i Nyrsys Marie Curie a'r Tîm Gofal Lliniarol am eu gofal o Dai a ninnau fel teulu, a hefyd i bawb a gymerodd ran ar ddydd yr angladd. Diolch yn fawr am y cyfraniadau a ddaeth i law er cof am Dai. Cyflwynwyd £1,700 i'r Uned Ddydd Feddygol yn Ysbyty Glangwili.

Diolch i Delyth ac Alun Esau hefyd am y trefniadau gofalus ac urddasol.

Dymuna Elizabeth Davies, Y Berllan, Pen-parc a Chartref Glyn-nest ddiolch o galon i'w theulu, ei ffrindiau a'i chymdogion am yr holl gardiau, yr anrhegion a'r dymuniadau da a gafodd ar ei phen-blwydd yn 80. Diolch hefyd i staff Glyn-nest am drefnu parti arbennig. Diolch yn fawr.

Dymuna Gerwyn ac Anna a'r teulu gydnabod yn ddiolchgar bob arwydd o gydymdeimlad a charedigrwydd a fynegwyd iddynt yn eu profedigaeth. Mae'r teulu hefyd yn gwerthfawrogi'n fawr y gofal diflino a gafodd eu mam, Eluned Watkin, yng Nghartref Henllan,

# CERDDWYR CYLCH TEIFI

Nid oes gweithgareddau gan Gerddwyr Cylch Teifi wedi'u trefnu hyd yn hyn. Rhoddwn wybod i bawb trwy e-bost ac yn y papurau lleol pan fydd unrhyw benderfyniadau a threfniadau.
Cysylltwch â Philippa Gibson 01239 654561, philippa.gibson@gmail.com os hoffech fod ar y rhestr bostio.

## CLWB 500

### MIS GORFFENNAF

| | |
|---|---|
| £30 | Campbell Jones, Glyn-hir, Brynhoffnant |
| £20 | Jaci Owen Evans, Taliesyn, Llangrannog. |
| £15 | Teulu Llety Siôn, Aber-arth |
| | Iolo Jones, Dôl-nant, Pontgarreg |
| £10 | Rita Lewis, Glynrhosyn, Saron, Llandysul |
| | Margaret Evans, Maesyreinion, Synod Inn. |
| | Rees Cameron, Pen-dre, Rhydlewis. |

### MIS AWST

| | |
|---|---|
| £30 | Mared a Trystan, d/o Derwen-deg, Penrhiw-llan. |
| £20 | Peter Thomas, Melyn-yr-haf, Caerwedros. |
| £15 | Morys Ioan, Dre-fach, Croeslan, Llandysul |
| | Len Smith, 4, Station Road, Pontweli. |
| £10 | Joni Evans, Dôl Alen, Cross Inn. |
| | Nellie Ilar, d/o Elin Owen, Rhyderwen, Synod Inn. |
| | Meilyr Ioan, Croesheddig Newydd, Cross Inn. |

## YN EISIAU

Angen Gohebydd yn ardaloedd **Coedybryn, Llandygwydd**

Mae'r *Gambo* yn dibynnu ar ohebyddion lleol i gasglu newyddion yr ardal ac i dynnu sylw at beth sy'n digwydd yn ein bro. Rydym yn wir ddiolchgar i bawb am eu gwaith, achos hebddyn nhw ni fyddai ein papur bro yn bodoli!

Felly, a oes 'na rywrai sy'n byw yn yr ardaloedd uchod i lenwi'r bylchau? Peidiwch â phoeni gormod am eich ysgrifennu - gwaith Golygydd y Mis yw rhoi trefn ar bethe! Hanes eich ardal chi sydd yn bwysig. Felly, os oes diddordeb gennych, cysylltwch ag aelod o'r Pwyllgor Gwaith drwy ffôn, e-bost neu anfon llythyr atyn nhw.


# CORNEL Y PLANT

Os ydych chi wedi bod yn brysur iawn dros wyliau'r haf, a heb gael cyfle i edrych ar bosau'r rhifyn diwethaf, peidiwch â phoeni. Dyma'r posau eto. Pob lwc i bawb gan gynnwys y rhai hynny sydd wedi anfon atebion yn barod.

## Pos 1

Mae'r Cyngor Llyfrau wedi rhoi catalog o lyfrau ar lein – **Blwyddlyfr Plant a Phobol Ifanc 2020.** Dyma gyfeiriad y wefan:
http://www.llyfrau.cymru/ymgyrchoedd-campaigns/catalog?diablo.lang=cym
Defnyddiwch y llyfryn i chwilio am atebion i'r cwis yma.

**Blwyddlyfr 2020**
**Tudalennau 32—44**




1. Chwiliwch am deitl llyfr gan Gwyn Morgan
2. Pwy yw awdur y llyfr 'Codi'r To'?
3. Sawl llyfr sydd yn y gyfres 'Cnoi Cul?
4. Chwiliwch am deitl llyfr o gerddi gan Casia Wiliam.
5. Pwy yw awdur y llyfr 'Y Ddraig yn y Castell'?
6. Pa wasg sy'n cyhoeddi'r llyfr 'Brwydr y Bêl'?
7. Pwy yw awdur y llyfr 'Na, Nel! Help!'?
8. Beth ydy enw un o'r gemau yn 'Bocs2 Gemau'r Parot Piws'.
9. Beth yw pris y poster o fap Ceredigion?
10. Beth ydy teitl y llyfr o gyfres Miss Prydderch?
11. Pwy yw awdur y llyfr 'Genod Gwych a Merched Medrus'?
12. Beth yw pris 'Thesawrws Lluniau Mawr'?

## Pos 2

Mae nifer ohonoch wedi bod yn treulio tipyn o amser yn yr ardd dros yr wythnosau diwethaf. Pethau y gwelwch chi yno sydd yn cuddio fan hyn:

| | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| l | i | l | r | d | f | b | r | c | e | p | h |
| a | t | f | e | m | r | t | l | a | h | c | b |
| t | a | i | a | d | r | a | r | d | a | a | l |
| c | s | w | ff | o | r | ch | h | g | d | c | o |
| d | y | u | w | p | o | r | f | a | a | o | d |
| w | h | i | l | b | e | r | m | r | u | e | a |
| rh | u | t | ŷ | g | w | y | d | r | f | d | u |
| ff | a | n | e | d | a | i | l | t | r | e | g |
| e | e | w | m | g | p | r | i | dd | t | n | b |

Anfonwch yr atebion sydd gennych at Lynda Mula, Tyrddol, Blaenannerch, Aberteifi SA43 2AJ neu lyndamula@yahoo.co.uk

## Gino Vasami (Luigi Carmel Vasami)



Eidalwr a Chymro i'r carn oedd Gino. Hunodd yn sydyn ar 1 Awst yn 65 oed. Bu ei wasanaeth angladdol yn Amlosgfa Aberystwyth dan ofal y Parchedig Carys Ann. Roedd Gino yn enedigol o Ciro Marina yn yr Eidal, yn fab i'r diweddar Raffael a Mariangela Vasami, ac yn frawd i Maria. Daeth y teulu i Gymru yn 1956 oherwydd bod un o'r teulu, Tony Vasami, wedi bod yn garcharor rhyfel yn Henllan ac wedi ymgartrefu'n hapus yng ngorllewin Cymru. Daeth Gino yn rhan bwysig o'r ardal gan weithio yn y Garage ym Mhenrhiw-llan, yna yn Llundain, yna priodi â Janice (Parc-y-trap, Castellnewydd Emlyn gynt) lle ganed iddynt un ferch Nina. Daethant nôl i Gymru a chafodd Gino waith yn Forge Garage, Ffos-y-ffin ac Anthony Motors, Aberystwyth. Roedd ceir Volkswagen yn bwysig iddo ac ymddiddorai mewn pysgota. Fel gŵr, tad a thad-cu roedd mor falch o'i deulu. Defnyddir cyfraniadau er cof am Gino tuag at atgyweirio Festri Capel Bryngwenith trwy law'r Trefnwr Angladdau, Maldwyn Lewis, Afallon, Penrhiw-pâl.

Gwerthfawrogir y geiriau isod gan y Prifardd Ceri Wyn Jones.

Fab yr Eidal, at dy Gymru
at dy ffrindiau, at dy deulu,
dyfnach na holl byllau'r afon
oedd y cariad yn dy galon.

Yn ein galar sydyn, garw,
cofiwn ni y cariad hwnnw,
a nes daw goleuni'r bore,
Nos Da, Gino, Buona Notte.


**Siop a Swyddfa'r Post Plwmp**

**Plwmp, Llandysul, Ceredigion. SA44 6HJ**
**01239 654548**
**plwmp@yahoo.co.uk**


### Cost hysbysebu yn Y Gambo

Un golofn (6 x 6cm)
£5 y mis neu £45 y flwyddyn
Dwy golofn (12.5 x 6cm)
£9 y mis neu £85 y flwyddyn
Un golofn (6 x 12.5cm)
£9 y mis neu £85 y flwyddyn
Dwy golofn (12.5 x 12.5cm)
£15 y mis neu £140 y flwyddyn
Os yn fwy na 12.5cm o hyd
£1 am bob cm ychwanegol.
Pris hanner tudalen (19 x 13.5cm)
£35 y mis
Tudalen gyfan (19 x 27cm)
£70 y mis


CR — CENFIL REEVES A'I FAB —
TREFNWYR ANGLADDAU
(Cenfil a Iona Reeves)

**Busnes teuluol preifat yn cynnig gwasanaeth gyda pharch ac urddas**

*Capel Gorffwys Preifat*

National SAIF Independent Funeral Directors · Golden Charter Funeral Plans · National Association of Funeral Directors

Garreg Wen, Talgarreg, Llandysul, Ceredigion. SA44 4XB
Ffôn: **01545 590254** E-bost: cenfil@bancsioncwilt.co.uk
www.cenfilreevesaifab.co.uk

# COFIO ELIZABETH ENIDWEN LLOYD JONES

**DEWI VILLA, FFOS-Y-FFIN**



(a hefyd o Droedrhiw-fach, Soar-fach (Garthowen), Hawenfa, Parc-y-pwll, Pen-lan Uchaf, Aberaeron a Ffos-y-ffin)

Hunodd Enidwen yn dawel ddydd Llun 27 Gorffennaf yn 92 oed. Cynhaliwyd yr angladd breifat yn Eglwys Dewi Sant, Henfynyw a'r gwasanaeth yng ngofal y Parchedig John Lewis a Dr. Dafydd Tudur.

Enidwen oedd yr hynaf o dri phlentyn Hathren ac Annie Rees, yn chwaer i Euros a Hefina. Fe'i ganwyd yn Nhroedrhiw-fach a chofir am Hathren fel tyddynnwr, morwr a hewlwr, a hefyd fel actor gyda Chwmni Drama Pontgarreg. Disgrifiodd Alun Cilie ef –

Un â'i rym yn ei gryman, - yn cadw'r ffordd
codi'r ffos heb loetran;
a thrwy'i oes, gwaith yw ei ran
gŵr wyth awr gwerth ei arian.

Roedd Annie yn ferch i deulu hynaws y Lloyd-iaid, Felin Huw a Throedrhiw-fach, chwaer Wil, Defi Rees, Beti a Daniel. Roedd hi'n gantores dda ac yn amlwg yng nghôr y Gymanfa Ganu, a chofir am Hathren hefyd yn amlwg yng Nghymanfaoedd Pwnc Capel-y-Wig. Etifeddodd y plant ddoniau cerddorol y rhieni, a danfonwyd hwy at Tom Rees, Pwll-y-whîl i ddysgu'r grefft. Cofir am Enidwen, Euros a Hefina yn canu fel unawdwyr, deuawd a thriawd yn y `Goeden Nadolig`.

Bu Enidwen yn cadw siop a llythyrdy yn Ffos-y-ffin. Hi oedd calon y gymdeithas, yn aelod o Ferched y Wawr a Sefydliad y Merched, yn un a adwaenai ei chwsmeriaid yn dda. Roedd yn wrandawraig ddidwyll, yn medru cadw cyfrinachau ynghyd â chynnig llaw a chyngor, hael ei chymwynas, hael i deuluoedd a chadarn ei chyfrifoldeb. Byddai'n dweud ei dweud, pan oedd eisiau, heb flewyn ar dafod ond yn onest iawn. Galwai llawer o ffrindiau a chydnabod i'w gweld, ac roedd hynny'n gysur mawr iddi.

Roedd Euros yn llawfeddyg Offthalmig yn Nhon-teg ger Pontypridd ac yn feddyg ymgynghorol i dîm rygbi Cymru dan 18. Bellach mae Hefina yn byw yn Mississippi yn UDA wedi treulio cyfnod hir yn nyrs mewn ysbyty mawr yn Las Vegas. Byddai Enidwen a hithau'n cysylltu â'i gilydd dros y ffôn bob nos Fercher ers blynyddoedd.

Estynnwn ein diolch i Euryd, Lilwen, Dylan a Lia am eu gofal ymroddgar a llwyr dros Enidwen yn ei blynyddoedd olaf yn ei chartref ac yn Dewi Villa. Cofiwn am wraig, mam, mam-gu a hen fam-gu a ffrind arbennig iawn.

Un ffraeth â bwrlwm i'w ffras - ei chwiw hael
a chalon cymdeithas,
a thrwy wên, nodwedd ei thras,
mae ennaint ei chymwynas.

*Jon Meirion*

## RHODDION

Diolch i'r canlynol am eu rhoddion hael i goffrau'r *Gambo*:

| | |
|---|---|
| **£500** | **Alun O Davies, Salisbury** |
| **£200** | **Teulu Pen-dre, Rhydlewis – Er cof am Dai Rees Davies** |
| **£100** | **Merched y Wawr, Bro Cranogwen** |
| **£25** | **Dewi Jones, Glynarthen** |
| **£20** | **Bethan Jones, Bryn-gwyn** |
| **£20** | **Mrs M. Powel, Rhydlewis** |
| **£20** | **Anhysbys** |
| **£10** | **TG a AS Williams** |
| **£5** | **Campbell Jones, Brynhoffnant** |

*Diolch i bawb am eu rhoddion yn enwedig ar adeg pan nad oes arian yn dod i mewn trwy werthiant.*

# CYMDEITHAS CEREDIGION 2020 – 2021 – Holi Eleri Evans



Yn ystod y flwyddyn ryfedd hon bu'n rhaid i Gymdeithas Ceredigion roi gorau i weddill ei rhaglen ar ôl Eisteddfod lwyddiannus mis Mawrth. Oherwydd y coronafeirws ni chynhaliwyd ein cyfarfod cyffredinol blynyddol, ac ynghanol yr holl ansicrwydd doedd neb yn gwybod pryd allen ni gwrdd i groesawu ein Llywydd newydd, Eleri Evans, Tan-y-groes a'i hurddo yn ei swydd. Ond oherwydd ymddangosiad annisgwyl y Gambo ym mis Medi, gallwn fanteisio ar y cyfle i gyflwyno'r Llywydd newydd.

*Eleri, llongyfarchiadau, pan dderbynioch chi'r swydd doeddech chi ddim yn breuddwydio beth oedd o'ch blaen chi, rwy'n siŵr. Allwch chi amlinellu beth fydd y Gymdeithas yn gallu'i wneud, felly, yn ystod 2020 - 2021?*

Na, pan dderbyniais y swydd doedd gen i, ddim mwy na neb arall, ddim syniad mai fel hyn fyddai pethe. Ond rhaid inni fod yn bositif: mae gennym yma yng Ngheredigion lawer iawn i fod yn ddiolchgar amdano, felly rhaid inni geisio gwneud y gorau o'n sefyllfa bresennol.

Dyw hi ddim yn debygol y bydd Cymdeithas Ceredigion yn gallu cwrdd yng Nghaffi'r Emlyn am dipyn, felly, penderfynwyd gohirio rhaglen arfaethedig 2020 -2021 a'i haildrefnu ar gyfer y flwyddyn fydd yn dechre ym mis Medi 2021 ac yn gorffen ym mis Ebrill 2022 a'r Is-lywydd Gwyndaf Tomos yn cymryd yr awenau ym mis Ebrill 2022 gobeithio.

Ond rydyn ni fel Pwyllgor yn awyddus i gynnal Eisteddfod Rithiol adeg Gŵyl Ddewi flwyddyn nesaf 2021. Mae'n bleser gen i ddweud bod Terwyn Tomos, Llandudoch, enillydd Stôl yr Eisteddfod Amgen, wedi cytuno i feirniadu. Felly, cadwch lygad am fanylion pellach yn rhifynnau'r Gambo ac ar wefan Cymdeithas Ceredigion a Chymdeithas Eisteddfodau Cymru.

*Rych chi'n adnabyddus i bawb sy'n ymwneud â phapur bro y Gambo a gwaith Caffi'r Emlyn yn codi arian at achosion da yn y gymuned, ond i'r rheiny yn yr ardal nad ydyn nhw'n eich nabod cystal, hoffech ddweud rhywbeth am eich cefndir a'ch gyrfa?*

Wel, mae gen i ateb parod bob amser pan fydd rhywun yn holi am fy magwraeth ac yn y blaen. Rwy'n dipyn o fwngrel. Roedd fy nhad yn dod o ardal Llangrannog a mam o ardal Blaen-y-coed yn Sir Gâr a ches i fy ngeni yng Nghwmisfael ger Llanddarog. Fuon ni'n byw yng Ngors-las nes oeddwn i'n wyth oed, pan symudodd y teulu i Dreletert yn Sir Benfro i ddechre ac yna i Abergwaun ymhen rhai blynyddoedd. Felly, mi es i Ysgol Gynradd Gors-las am gyfnod, ac yna i Ysgol Gynradd Treletert cyn symud ymlaen i Ysgol Uwchradd Abergwaun ac i Ysgol y Preseli i wneud Lefel A.

Fues i yng Ngholeg y Llyfrgellwyr yn Aberystwyth cyn dechre gweithio yn Llyfrgell y Sir yn Hwlffordd. Gadael am gyfnod pan oedd ein tri phlentyn yn fach, ac yna ailymuno â chriw Llyfrgell Dyfed fel Llyfrgellydd Ysgolion Cynradd Sir Benfro ddiwedd yr wythdegau, ac yna dal i weithio i wasanaeth Llyfrgell Sir Benfro nes i fi ymddeol ryw ddeng mlynedd nôl.

*Mae'n siŵr bod eich amser hamdden yn brin, ond a oes gyda chi hobïau neu ddiddordebau ar wahân i'ch gwaith cyhoeddus?*

Rwy'n hoffi darllen, gwau, gwnïo, pob math o grefft pan fydd amser yn caniatáu. Rwy'n hoffi cerdded hefyd, yn enwedig ar lan y môr. Rwy'n cefnogi Tîm Rygbi'r Sgarlets, yn hoffi steddfota a mynd i ambell gyngerdd neu ddrama pan gaf gyfle. Rwy'n treulio tipyn o amser yng nghwmni'r wyrion a'r wyresau, ac yn gwerthfawrogi pob eiliad o'u cwmni, o'r hynaf sydd bellach yn slabyn 21 oed i'r lleiaf sydd bron yn 2.

*Oes 'na rywbeth ychwanegol hoffech chi sôn amdano ?*

Fe hoffwn ddiolch i Robyn Tomos, cyn Lywydd y Gymdeithas, am raglen ddiddorol y llynedd, a hefyd i'r cyn ysgrifenyddion Philippa Gibson a Mary Jones am eu gwaith caled yn ystod y flwyddyn.

Rwy'n edrych ymlaen hefyd at gydweithio â'r swyddogion newydd i baratoi rhaglen ddiddorol ar eich cyfer chi ac unrhyw aelodau newydd fydd am ymuno â ni.

Is-lywydd Gwyndaf Tomos, Ffynnon Owen, Eglwyswrw

Ysgrifennydd Carol Byrne Jones Pencartws, Ffordd Tre-saith, Aber-porth

Trysorydd Howard Williams, Swn-y-nant, Glanarberth, Llechryd

Yn olaf, hoffwn ddymuno'n dda i holl aelodau Cymdeithas Ceredigion yn ystod y misoedd nesaf. Rwy'n edrych ymlaen at eich croesawu i Gaffi'r Emlyn yn Nhan-y-groes pan fydd hi'n ddiogel inni wneud hynny.

# DOSBARTH TRAFOD CERDDI

Ers llawer blwyddyn mae nifer o bobol sydd â diddordeb mewn trafod llenyddiaeth wedi bod yn cwrdd yng Nghaffi'r Emlyn yn Nhan-y-groes ar brynhawn dydd Mercher i drafod ymhlith ei gilydd. Y Prifardd Idris Reynolds sy'n llywio'r cyfan, ac fel rheol fe fyddai'r grŵp yn ailddechrau yn yr hydref ar ôl toriad yr haf. Ond gan fod pethau fel maen nhw, penderfynwyd gohirio'r dosbarthiadau am dipyn ac ailystyried pethau tua'r Nadolig. Gobeithio y bydd y sefyllfa wedi gwella digon erbyn hynny inni ailddechrau mewn rhyw ffordd neu'i gilydd.

# GWLAD BEIRDD A CHYD-ZOOMWYR gan Endaf Griffiths

Pan ofynnwyd i fi lunio adroddiad yn crynhoi gweithgarwch barddol yr haf, fe dderbyniais y cynnig yn llawen gan feddwl taw gorchwyl digon hawdd fyddai hynny. Ond na, yn wir, bu beirdd yn recordio'u cerddi ar gyfer y Talwrn o'u cartrefi ac yn eu hanfon at y Meuryn drwy WhatsApp. Yna bu ymrysona dros Zoom mewn Gŵyl AmGen a sesiynau'n trin a thrafod llenyddiaeth. Do, fe fu hynny i gyd a rhagor yn digwydd yn ystod yr haf anarferol hwn.

Cafodd rownd derfynol Talwrn y Beirdd y BBC eleni ei darlledu'n fyw – drwy gyfrwng Zoom – ar Facebook. Gogoniant cael y Ffeinal ar y cyfryngau cymdeithasol ac ar wefan y BBC yw bod modd gwrando'n ôl arni, ar unrhyw adeg, i glywed rhai o'r perlau a gafwyd gan y ddau dîm, sef Tir Iarll a'r Cŵps eleni. Cafodd pedwar darn o waith y marc uchaf gan y Meuryn, ac esgorodd y protestiadau gwrth-hiliaeth ledled y byd yn dilyn marwolaeth George Floyd yn Minneapolis ar yr englyn hwn gan Emyr Davies a chael 10 marc haeddiannol iawn:

Er fy mod yn warchodol - o hawliau
pob un hil wahanol,
mae darn o'm rhagfarn ar ôl
ar eu gwddw'n dragwyddol.

Yn wahanol i Eisteddfod T yr Urdd yn y gwanwyn, sesiynau trin a thrafod, yn hytrach na chystadlu, oedd trwch yr hyn a gynigiwyd gan yr Ŵyl AmGen, ond ni chafodd beirdd a llenorion Cymru gyfle i segura'r haf hwn, diolch i gystadlaethau'r Stôl Farddoniaeth a'r Stôl Ryddiaith. Terwyn Tomos o Landudoch, ac aelod o dîm Talwrn Glannau Teifi, aeth â'r Stôl Farddoniaeth am ei awdl fer ar y testun 'Ymlaen'. Mae'n mynegi gwerthfawrogiad o filltir sgwâr a ddyfnhawyd yn ystod cyfyngiadau'r Cyfnod Clo, a siars y Llywodraeth i 'aros yn lleol'. Agorwyd llygaid y bardd i'r hyn sy'n nes gartref, ac er nad pawb sy'n gyfarwydd â Chwm Degwel, rwy'n siŵr bod llawer ohonom wedi bod yn crwydro ein 'Cymoedd Degwel' ein hunain yn ddiweddar ac yn gallu uniaethu â llinell glo'r gerdd: "Mae digon yng Nghwm Degwel."

Cwmni sydd wedi elwa'n fawr o ddiwylliant Cymru yn ystod y Cyfnod Clo yw neb llai na Zoom – oes perygl i Dafydd ab Edmwnd, John Morris-Jones a'r Gymdeithas Gerdd Dafod golli eu coron fel 'achubwyr Cerdd Dafod'? Mae Zoom, i raddau helaeth, yn haeddu'r teitl yr haf hwn oherwydd hwn a ddefnyddiwyd ar gyfer y mwyafrif o sesiynau'r Ŵyl AmGen. Hwn hefyd a arweiniodd at fathu'r enw 'Zoomryson' ar yr Ymryson ar-lein bob prynhawn o ddydd Mawrth i ddydd Gwener yn ystod yr Eistedd-oedd-i-fod. Tîm y Deheubarth oedd yr enillwyr ar ddiwedd yr wythnos.

Englyn o eiddo Osian Owen o'r Felinheli a gafodd ei ddewis fel y gorau o holl Englynion y Dydd yr wythnos, ar y testun 'Galwad'. Mae'n cyfeirio at y trychineb diweddar yn Beirut, ac yn benodol at y wraig yn rhoi genedigaeth mewn ysbyty ym mhrifddinas Lebanon pan ddigwyddodd y ffrwydrad:

Yn y ffwrnais uffernol – ym Meirut
mae'r waedd annaearol.
Ond mae fflam llygad famol
ar faban chwa'n llenwi'i chôl.

O'r un cnwd o feirdd ifanc ag Osian Owen daw enillydd gwobr categori barddoniaeth Llyfr y Flwyddyn eleni. Pamffled o gerddi yw *Hwn ydy'r llais, tybad?* gan Caryl Bryn, a gyhoeddwyd dan adain Cyhoeddiadau'r Stamp, sef criw o wirfoddolwyr gweithgar sy'n cynnig llwyfan i leisiau newydd. Ar y rhestr fer hefyd roedd cyfrolau dau heavy-weight ein llên, sef Idris Reynolds (Ar Ben y Lôn) a Myrddin ap Dafydd (Pentre Du Pentre Gwyn).

Cipolwg sydyn yw'r uchod o'r hyn roedd nifer ohonom yn disgwyl iddo fod yn haf cymharol dawel i'r byd barddol Cymraeg. Roedd absenoldeb eisteddfodau'r Urdd a'r Genedlaethol yn golled, does dim dwywaith am hynny, ond cafwyd digon o weithgarwch, er enghraifft, y sesiynau trin a thrafod yn yr Ŵyl AmGen, ac yn bennaf sesiwn 'Y Gynghanedd Heddiw'. Ac wrth gwrs cyhoeddwyd nifer o gyfrolau newydd yn y misoedd diwethaf, a rhagor, gobeithio, i ddod o'r gweisg rhwng nawr a diwedd y flwyddyn.

Mae'r cyfnod rhyfedd hwn, mae'n siŵr, wedi tynnu'n sylw fel cymdeithas at y ffaith nad oes rhaid cael neuadd bentref, capel neu dafarn i gynnal digwyddiad; gall technoleg wneud y cyfan. Ond wedi dweud hynny, y cynhesrwydd mwyaf a gawn o ddigwyddiadau rhithiol o'r fath yw o fatri'r ddyfais yn ein dwylo. I gael y cynhesrwydd gorau, a'r mwyaf llesol, mae angen cael pobl yn dod at ei gilydd. Felly, brysied y dydd pan gawn ni i gyd, yn ddiogel, ddychwelyd i'n neuaddau, ein capeli a'n tafarndai, a Maes yr Eisteddfod hefyd.

# FFRIND YN HOLI FFRIND





Nôl ym mis Mawrth cafodd Tony Hack, Glasfryn, Rhydlewis ei enwebu gan Gino Vassami i ateb rhai o'i gwestiynau ar gyfer y golofn hon.

*Dwed ychydig bach am dy hanes di a'r teulu?*

Fel rwyt ti'n gwybod, fe ges i fy magu, fel ti, gyda Mam-gu a Dad-cu. Roedd Mam yn gweithio yn Llundain ar y pryd ac fe ges i ddewis pan own i tua 5 neu 6 oed i fynd i fyw at Mam, ond fe ddewises aros yng Nghymru. Felly, i ysgol Coedybryn es i a wedyn i Ysgol Ramadeg Llandysul. Pan own i yn Ysgol Llandysul fe ga'th fy wncwl ddamwain ar y fferm oedd yn golygu bod rhaid i fi helpu mwy. Felly, fe fyddwn yn godro cyn mynd i'r ysgol yn amal iawn. A rwy'n dal yn godro tan y dydd heddi! Da Holstein du a gwyn sydd gyda ni, ond rwy'n lwcus bod Steffan a Sioned, sy'n efeilliaid, wedi penderfynu cario mlaen ar y ffarm.

*Esbonia pwy yw'r efeilliaid.*

Mae pedwar o blant gyda fi ac Arlene, y wraig. Sophie yw'r hynaf ac mae wedi priodi ac yn byw bellach yn Seland Newydd. Mae dau o blant gyda hi, Veda ac Aster. Sonya wedyn yw'r ferch ganol, sy'n gyfrifydd yng Nghastell Aberteifi. Mae'n byw yn Llechryd gyda'i gŵr a'r plant, Dion a Cerys. Mae un wyres arall gyda fi sy'n byw yng Nglynarthen, merch Sioned a'i phartner. Felly, y rhai ifancaf yw'r efeilliaid sydd wrthi'n ffarmo Glasfryn, Rhydlewis. Fues i'n sâl nôl yn 2016, felly rwy mor falch fod yr efeilliaid wedi penderfynu dod nôl yma i'r fferm.

*Ydych chi wedi cael cyfle i fynd mas i Seland Newydd?*

Rown i a'r wraig i fod i fynd mas yn 2016, ond dim ond hi lwyddodd i fynd achos dyna pryd ges i bwl ar y galon a gorfod cael stent.

*Fel fi, mae teulu gyda ti yn yr Eidal. Wyt ti wedi clywed wrthyn nhw'n ddiweddar?*

Rwy wedi clywed wrth un neu ddau, ond ers i Wncwl ac Anti farw dyw'r cefndryd a fi ddim yn cysylltu mor aml â hynny. Rwy'n gwybod nad ydyn nhw ddim wedi cael y feirws. Maen nhw'n lwcus eu bod yn byw yn Calabria yn ne'r Eidal, nid yn y gogledd.

*Beth rych chi'n bwyta fwya gartre – bwyd Cymru ynte bwyd yr Eidal?*

Yn wahanol i ti, fe briodes i Gymraes, ond rhaid dweud mae wedi dod i wneud pasta yn arbennig o dda gan ei bod hi'n coginio gyda dy wraig di yn La Calabria.

*Dwed rywbeth am dy ddiddordeb mewn canu.*

Pan rown i yn Ysgol Llandysul rown i'n arfer canu, June Lloyd Jones oedd yr athrawes gerdd. Ond wedyn, ar ôl gadael yr ysgol, fues i'n canu tipyn o Ganu Gwlad 'Country and Wastern' nes i fi briodi. Ond pan fydd 'singalong' yn La Calabria ym Mwlch-y-groes, rwy'n dal i joio canu.

*Pa ganeuon fyddet ti'n canu?*

Caneuon John Denver, Elvis Presley, Tom Jones a Johnny Cash.

*Oeddet ti'n dawnsio llinell?*

Yn syml iawn, NA!

*Shwt mae pethe ar ffermwyr llaeth ar hyn o bryd?*

Yr unig beth allwn ni wneud yw cario mla'n. Mae'r Covid 19 'ma wedi effeithio ar bris llaeth er gwaeth. Mae ein llaeth ni'n mynd lan i Langefni, ac wrth gwrs, gan mai paratoi caws Mozzarella maen nhw a'r bwytai a'r gwestai wedi bod ar gau, does dim cymaint o ofyn wedi bod am y cynnyrch.

*Pa frîd o dda sydd gyda chi?*

Da 'Holstein' du a gwyn. Enw'r fuches yw 'Santa Maria Herd', a fues i'n ffodus i gyrraedd ffeinal Cwpan Aur NMR (National Milk Records) cwpwl o weithiau.


TAFARN FFOSTRASOL
Am fwyd a diod da
mewn awyrgylch gartrefol
dewch i
DAFARN FFOSTRASOL

Cware Trefigin Olew
☎ (01239) 881282
☎ (01239) 881630
TYWOD GRAEAN CERRIG BLOCS
TANWYDD TŶ DISEL FFERM DISEL LIWBOLEW
ABERTEIFI SA43 3BL

Tonwen James
Ymgynghorwr
Yswiriant
"Old Oak"
Busnes - Fferm
Tŷ - Modur
Polisïau arbennig at
bob pwrpas
Ffôn: 01239 613213

Efallai nad yw eich banc yn cynnig cyngor – ond rydw i!
Ydy eich banc wedi atal cynnig cyngor ariannol i chi?
Os ydych wedi colli'r gwasanaeth hwn ac angen arweiniad proffesiynol, gallaf eich cynorthwyo!
Gyda thros 27 o flynyddoedd o brofiad, gallaf gynnig cyngor ar:
Cynilo a Buddsoddi :: Yswiriant a Diogelu :: Cynllunio ar gyfer ymddeol
Taliadau treth :: Rheoli Ystad :: Morgeisi ac Yswiriant Cartref
Cysylltwch â mi am gyngor ariannol uniongyrchol:
Richard Owen Jarman Dip CII, Cert CII(MP)
Wealth Management Partner, True Potential Wealth Management LLP
M: 07816 923618 E: richardjarman@tpllp.com
www.richardjarman.tpllp.com
true potential wealth management

*Oes cyngor gyda ti ar gyfer ffermwyr y dyfodol?*

Fe fydden i'n dweud bod rhywbeth i'w ddysgu bob dydd. 'Dyw dyn byth yn rhy hen i ddysgu. Mae rhai pobol yn fy nabod i fel Tony Semex, achos rwy'n mynd o gwmpas ffermydd Sir Benfro, Sir Gaerfyrddin a Cheredigion yn cynghori ynglŷn â bridio gwartheg pedigri, sef yr Holsteins. Rwy'n gweithio i Semex UK. Er mod i'n rhoi cyngor, rwy hefyd yn dysgu cymaint gan ffermwyr eraill ac yn dal i ddysgu. Mae cael y cyfle i sgwrsio a chymdeithasu yn werth y byd.

*Diolch yn fawr i ti am ateb fy nghwestiynau. Pwy hoffet ti ei enwebu ar gyfer y tro nesa?*

Rwy am ddewis Maldwyn Lewis, Penrhiw-pâl.

## PROFIADAU GWAHANOL DAU ŴR YN YSTOD YR AIL RYFEL BYD

### JAN BORYSIEWICZ

Yn ddiweddar bu farw'r Capten Jan Borysiewicz, Heol y Graig, Aber-porth, tad Lilian Jones, fferyllydd y pentre rai blynyddoedd yn ôl, a thad-yng-nghyfraith Dafydd Jones, cyn brifathro'r Ysgol Gynradd leol. Roedd Jan yn 101 oed ac yn enedigol o Wlad Pwyl, ond roedd wedi dod i Brydain yn fuan wedi diwedd yr Ail Ryfel Byd yn 1945.

Ar gais ei deulu roedd Jan wedi ysgrifennu hanes ei fywyd rhyfeddol, ac yntau yn ei 90au, ar gyfer ei wyrion a'i wyresau. Mae ei stori'n darllen bron fel sgript rhaglen deledu ac mae'r cyfan wedi ei rwymo'n gain mewn clawr glas.

Ganed Jan yn 1919 ar ddiwedd y Rhyfel Byd Cyntaf yn ystod pandemig ffliw, a bu farw yn ystod pandemig arall eleni, ond mae hanes ei fywyd rhwng y ddau ddigwyddiad bron yn anghredadwy. Roedd yn un o 10 o blant yn byw ar fferm fechan yn crafu byw ar dir gwael iawn mewn pentref bach ger dinas Bialystok, sydd heddiw ar y ffin â Rwsia. Oherwydd ei fod yn fachgen dawnus, llwyddodd i gael addysg yn ei ysgol leol, ac yna mewn ysgol uwchradd a olygai gerdded 12 km bob dydd.

Mewn ardal mor dlawd, yn y pen draw ei unig obaith o gael bywoliaeth oedd ymuno â'r fyddin, ond yn 1939 goresgynnwyd Gwlad Pwyl gan yr Undeb Sofietaidd, ac oherwydd ei fod yn gallu darllen ac ysgrifennu cafodd Jan ei orfodi i fod yn athro ysgol gynradd i'r Sofietiaid. Gyda gwleidyddiaeth y rhan hon o'r byd mor gythryblus, cafodd ei orfodi i ymuno â'r Fyddin Goch. Ond oherwydd ei hanes roedd ei feistri'n ei ddrwgdybio ac anfonwyd Jan a'i uned i wersyll llafur Sofietaidd yn Ulyanovsk yn Siberia. Tra oedden nhw yno clywodd pedwar ohonynt fod Byddin Bwylaidd yn cael ei chreu yn Kazakhstan a phenderfynwyd ceisio dianc o'r gwersyll.

Ar ôl pob math o helyntion wrth ddianc, credai'r pedwar y byddai ymuno â'r Fyddin Bwylaidd yn lled hawdd, ond roedd Jan yn cael ei amau eto oherwydd iddo fod yn aelod o'r Fyddin Goch. Fodd bynnag, ymhen hir a hwyr dechreuodd yr ymlwybro maith o Kazakhstan i ymuno â'r 8fed Fyddin yn yr Aifft. Oddi yno i Balesteina a'r Aifft, lle cyfarfu Jan â'i ddarpar wraig am y tro cyntaf, ac er gwaethaf nifer o helyntion cyfarfu'r ddau eto yn Teheran ac wedyn yn Baghdad ac yn Jeriwsalem.

Bu'r 8fed Fyddin yn ymladd yn yr Eidal hefyd, ac yn yr ymosodiad olaf hanesyddol ar 17 Mai 1944 ym Mrwydr Monte Casino cafodd Jan ei anafu'n ddrwg a bu yn yr ysbyty am fisoedd lawer. Ond erbyn hyn roedd Gwlad Pwyl yn gynyddol yn cael ei llyncu gan Gytundeb Warsaw a'r rhyfel oer ar y gorwel. Felly roedd yn rhaid i Jan a'i wraig wneud penderfyniad anodd: ni fyddai mynd nôl i Wlad Pwyl yn hawdd oherwydd iddyn nhw ddianc, ac roedd nifer o Bwyliaid yn ystyried ymsefydlu mewn gwlad dramor. Prydain oedd y wlad honno i deulu Jan, ac ar ôl cyfnod yn byw yn Lloegr daethant i Gymru ar ôl clywed am waith yng Nghaerdydd. Felly, yng Nghaerdydd y cafodd Lilian a'i brawd eu geni, a chael eu trochi yn nhraddodiadau Gwlad Pwyl a mynd i'r Eglwys Bwylaidd yno. Bu'r ddau hefyd yn fyfyrwyr ym Mhrifysgol Caerdydd.

Oherwydd iddo syrthio yn ei gartref wedi colli ei wraig, daeth Jan i Aber-porth i fyw at Lilian a Dafydd, ond ar ei ganfed pen-blwydd cafwyd dathlu mawr yng Nghaerdydd. Uchafbwynt y noson i Jan oedd cael ei wneud yn Gapten a chyflwyno cleddyf swyddog iddo. Yn anffodus cafodd godwm arall yn ddiweddarach ac aeth i'r Hafod yn Aberteifi i fyw. Ond doedd hynny chwaith ddim yn torri ei ysbryd, ac yn fuan ar ôl cyrraedd yr Hafod roedd yn dweud y dylai fod wedi mynd yno flynyddoedd ynghynt gan fod y gofal yno mor arbennig - yn well nag unrhyw westy, meddai!

Y tristwch i'r teulu, fel i gynifer o deuluoedd eraill, wrth gwrs, yn ystod y Cyfnod Clo presennol oedd eu bod wedi methu â bod gyda Jan yn ei ddyddiau olaf, wedi ei eni mewn cyfnod cythryblus o bandemig ac yn marw'n dawel mewn cyfnod arall o bandemig.

## JOHN DAVIES, Y GRAIG

Dyw John y Graig ddim wedi cyrraedd ei 101 eto, ond mae'n lled agos er ei bod yn anodd iawn credu hynny. Mab siop London House, Aber-porth yw John, ac mae ganddo straeon di-ri am fywyd yn y pentre. Dyma rai o'r rheiny, ac mae yna oriau yn fwy y gallai eu hadrodd.

Tua diwedd y 30au roedd paratoadau ar gyfer rhyfel yn amlwg yn y pentre a sôn ymhlith y plant fod y Fyddin am ddod i'r ardal. Mae John yn cofio gorfod mynd i'r ysgol un noson i ddysgu sut i osod masgiau nwy wrth ei gilydd. Roedd tair rhan – y masg, hidlydd aer, blwch cardfwrdd a llinyn wrtho i'w rhoi dros eich ysgwydd, a thâp gludiog i gydio'r masg wrth yr hidlydd.

Dechreuwyd y gwaith o adeiladu Sefydliad Datblygu Taflegrau (PDE) ym Mhennar Isaf ym Mharc-llyn, ar ôl dymchwel y tŷ a symud y brawd a'r chwaer, Henry a Sarah Jones a oedd yn byw yno, i dŷ yn Aber-porth. Roedd y gwaith wedi'i orffen erbyn 1939 gan ddarparu bywoliaeth i nifer o ddynion o'r ardal a thu hwnt. Pan ofynnodd y Parchedig J H Jenkins i Twm Shot, y cymeriad lliwgar hwnnw, a oedd yn gobeithio mynd i'r nefoedd ar ôl marw, atebodd Twm, "Dwy i ddim yn gwybod: mae pawb yn mynd i'r PDE y dyddie hyn".

Codwyd mannau lansio uwchben Traeth Cribach, ac ymhen amser byddai rocedi mawr yn cael eu tanio oddi yno. Er mwyn gweithio'r mannau tanio a darparu milwyr i warchod y safle, daeth '101 Z Battery' i'r pentre a lletya ar aelwydydd lleol. Byddai'r milwyr yn gorymdeithio bob nos o flaen Avalon a'r 'Sergeant Major' yn eu harchwilio. Ar un cyfnod Prif Swyddog Z Battery oedd Major Duncan Sands, mab-yng-nghyfraith Winston Churchill. Byddai Pugh James (y siop sgidiau) yn tyngu bod hwnnw wedi gadael heb dalu am bâr o sgidiau.

Daeth Winston Churchill ei hun, ynghyd â Llysgennad America, Joseph Kennedy, i'r safle i weld rhyw roced arbennig yn cael ei thanio, ond ffrwydrodd honno gan danio dyfais arall a oedd wedi'i chrogi wrth falŵn wedi'i angori allan yn y bae. Roeddwn i a rhai bechgyn eraill yn eistedd ar y clawdd y tu allan i Goedlan pan ddisgynnodd darn o shrapnel rhwng coesau un o'r bechgyn.

Tra oedd y PDE yn cael ei godi, roedd gwaith yn dechrau hefyd ar greu Gwersyll i'r Fyddin. Ychydig fisoedd cyn y rhyfel roedd grŵp o filwyr wedi dod i Barc-llyn gyda dryllau i saethu awyrennau. Yr HAC oedden nhw (the Honourable Artillery Company), sef pobl grand o Lundain a oedd wedi ffurfio Grŵp Tiriogaethol. Roedd dau ohonyn nhw'n llety gyda ni yn London House. Pan ddaeth yn amlwg fod y rhyfel yn mynd i ddechrau, aethant nôl i Lundain ar frys.

Roedd y tir i'r gogledd o Bennar Uchaf wedi'i droi'n llwyfannau ar gyfer y dryllau mawr, a byddai milwyr yn dod yn eu cannoedd i letya yn y tai a'r cerbydau trên y tu ôl i Ben-y-graig ac wrth ymyl Capel Bryn Seion. Caent eu bwydo yn Neuadd y Coroniad a gorymdeithio nôl i Barc-llyn wedyn i fyny Rhiw Rofft. Dyna pryd y dechreuwyd galw Rhiw Rofft yn 'Punishment Hill'.

Byddai milwyr yn dod yn gyson am gyfnodau o hyfforddiant, rhai o Brydain, rhai o Ganada a rhai o America. Cofir am y milwyr o Ganada Ffrengig oherwydd iddyn nhw ddwyn casgen o gwrw o'r White Lion a'i rholio drwy'r pentre. Ond aeth y gasgen allan o reolaeth ar Riw Jos a mynd ar ei phen i mewn i wal y bont gan arllwys y cwrw i mewn i afon Howni.

Yn y cyfamser penderfynwyd bod angen man glanio ar gyfer awyrennau a chymerwyd darn helaeth o dir Pen-cnwc ym Mlaenannerch. Ar y dechrau y 'Queen Bees' fyddai'n defnyddio'r safle, awyrennau bach radio dwy adain yn tynnu targedau bach coch i'r dryllau gael saethu atynt. Wedyn daeth awyrennau Hawker Henley mwy o faint, a chafwyd problem gydag un o'r rhain a disgynnodd ar ben Capel Blaenannerch.

Byddai John yn mynd i Ysgol Ramadeg Aberteifi, ond pan fu'n rhaid i'w frawd ymuno â'r Llynges, a rhedeg y siop a threfnu'r 'rations' wedi mynd yn ormod o faich i'w fam, gadawodd John yr ysgol i redeg siop London House. Cafodd ei benodi'n 'Air Raid Warden', ac roedd ganddo gloch i'w chanu os byddai rhybudd o ymgyrch awyr, ratl os byddai ymosodiad nwy, stretcher a charthen ar gyfer unrhyw gleifion. Unwaith yn unig y defnyddiodd John y gloch, ond pan aeth drwy'r pentre'n canu'r gloch ni chymerodd neb ddim sylw, heblaw un person a ofynnodd beth oedd yn ei werthu. Bryd hynny byddai'n cysgu ym Mhencastell (siop Golchi a Sychu heddiw) ac ni allai bob amser glywed y seiren. Felly, clymodd ddarn o gortyn wrth fys bawd ei droed a rhoi'r cortyn allan drwy'r ffenest i un o'r wardeiniaid eraill ei rybuddio os byddai angen. Gweithiodd yn iawn nes i'r gweithwyr ar eu ffordd i'r PDE ddarganfod hyn a dechrau tynnu'r cortyn am 7.30 y bore.

Un noson stormus ym mis Tachwedd gwelwyd llong yn dod heibio i Ben Cribach yn tynnu cwch mawr o'i hôl ac yn fflachio'i golau. Bwriodd angor dan Ben-y-graig a chrynhodd nifer o'r pentrefwyr i ddilyn yr helynt, ac yn eu plith roedd y Capten Thomas Thomas, Cartref (Twm Cartref) a oedd yn gallu deall Morse Code. Yn ôl Twm dyma oedd y neges "Making water rapidly, please send lifeboat". Yn anffodus doedd Twm ddim wedi cael

y llythrennau i gyd yn gywir a dyma oedd ei ddehongliad: “King making water rapidly please send lifeboat”. Byddai rhywun byth a beunydd wedyn yn holi Twm am gyflwr chwarren brostad y Brenin. Diwedd yr helynt hwn oedd bod Gwylwyr y Glannau o’r Gwbert wedi dod â rocedi a rhaffau ac ati, ond roedd y llong allan yn rhy bell, ac yn y pen draw neidiodd y morwyr i mewn i’r cwch roedden nhw’n ei dynnu a’i rwyfo i’r lan.

Daeth pâr oedrannus a oedd wedi colli eu cartref yn Weston Super Mare, Sam a Fanny, i fyw at chwaer Sam, Casi Thomas, Gorphwysfa. Yn anffodus doedd Fanny ddim yn cyd-fynd â’i chwaer-yng-nghyfraith, a chawsant rentu’r fflat uwchben siop John. Pan ddaeth John adre’n hwyr un nos Sadwrn pan oedd llawer iawn o rocedi’n cael eu tanio, daeth Sam i’r drws a dweud ei fod yn credu bod Fanny wedi mynd. Gyda’i hyfforddiant cymorth cyntaf blaenorol aeth John i weld drosto’i hun, ac yna galwodd ar Ada Smith a gadarnhaodd fod Fanny yn wir wedi marw. Daeth Daniel Rees, y trefnwr angladdau, a’i fab Henry (Pant-y-ffwrn) mewn dim o dro, a chan nad oedd John am gael corff marw yn ei fflat pan fyddai’n agor y siop fore trannoeth, lapiwyd corff Fanny mewn lliain a chariwyd hi gan y pedwar i lawr i Gorphwysfa. Roedd hi’n noson olau leuad hyfryd, felly, dychmygwch y syndod pe bae rhywun wedi gweld yr olygfa y noson honno.

Dylai John fod wedi ei ‘alw i fyny’ yn 18 oed, ond dywedwyd wrtho fod ganddo siop i’w rhedeg a chafodd ei esgusodi. Bu ei fam farw yn 1944, a chan ei fod wedi cael hen ddigon o redeg siop erbyn hynny penderfynodd ymuno â’r Lluoedd Arfog.

*Ymarfer tanio rocedi oddi ar long.*



## Neuadd y Pentref a Thir Hamdden Aber-porth

## Gwybodaeth am ailagor Neuaddau Pentref yn ddiogel

Oherwydd y sefyllfa COVID-19 ddigynsail ledled y wlad, bu’n rhaid cymryd camau cloi yn sgil cyfarwyddiadau’r Llywodraeth a chau ein dwy Neuadd Bentref o fis Mawrth 2020.

Fel rhan o fap arwain Llywodraeth Cymru ‘Datgloi ein Cymdeithas a’n Heconomi’, cyhoeddwyd yn ddiweddar y byddai neuaddau cymuned/pentref yn cael ailagor ar gyfer pob gweithgarwch sydd wedi’i osod allan yn Rheoliadau Cynulliad Cymru.  Fodd bynnag, mae’n dweud mai pwyllgor pob neuadd bentref sydd i benderfynu pryd y bydd yn ystyried ei bod yn ddiogel i unrhyw weithgarwch a ganiateir ailddechrau, pan fydd systemau a mesurau diogelu ar waith i atal lledaenu’r coronavirus, gan wneud adeiladau’n ddiogel rhag COVID-19.


Mae’n ofynnol dan y ddeddf i’r holl adeiladau sy’n agored i’r cyhoedd gymryd ‘pob cam rhesymol’ i atal lledaenu’r coronavirus.

Fel rhan o’r cynlluniau i ailagor, mae’n ofynnol i Ymddiriedolwyr Pwyllgor Neuadd y Pentref Aber-porth gynnal amrywiol ’asesiadau risg’ a gweithredu systemau a gweithdrefnau diogelu, fel hysbysiadau diogelwch i atgoffa pobl i gadw pellter cymdeithasol o 2m mewn ystafelloedd, coridorau a rhesi y tu allan, defnyddio hylif diheintio dwylo a thywelion papur, gorchuddio’r wyneb (os bydd angen), gofynion glanhau ac asesiadau risg gan bawb sy’n hurio, gan roi gwybod i bawb sy’n hurio/pob pwyllgor am unrhyw un sydd ag unrhyw symptomau coronavirus (ni ddylai pobl sydd â symptomau fynd i Neuadd y Pentref na Chanolfan y Dyffryn), gan roi gwybod i’r system Amddiffyn Olrhain Prawf.

Mae’r Ymddiriedolwyr yn cydnabod y bydd angen addasiadau a bod rheoliadau’n newid yn aml, ond gobeithiwn allu ailagor pan fydd yr holl systemau a’r gweithdrefnau diogelu ar waith i gadw pawb yn ddiogel.

Bydd manylion pellach yn dilyn maes o law.

# PWY OND EMYR PEN-RHIW



Er nad ym Mhabell Lên y Steddfod roedd Ffeinal Talwrn y Beirdd Radio Cymru eleni, wrth reswm, roedd yna gynulleidfa sylweddol yn clywed y gweithgareddau – trwy gyfrwng Zoom a dulliau eraill yn ystod yr Ŵyl AmGen. A chafwyd gornest deilwng o unrhyw flwyddyn rhwng timau'r Cŵps a Thir Iarll. Yn ystod y rownd derfynol dewisodd y Meuryn, Ceri Wyn Jones, y gerdd ysgafn orau yn y gyfres gyfan, a doedd fawr o neb yn synnu pan gyhoeddwyd mai cerdd Emyr Davies, Pen-rhiw oedd yn haeddu ennill Tlws Emyr Oernant eleni. 'Gwthio'r Ffiniau' oedd y teitl, a gobeithio y cawn ei darllen yn y Gambo nesaf.

Llongyfarchiadau unwaith eto i Emyr, a gobeithio bod ganddo feudy swmpus ar gyfer y fuwch!


DEWI JAMES A'I GWMNI

CIGYDDION O FRI



"Y GORAU YN RHATACH
DOSBARTHIR I BOB RHAN O'R ARDAL"

38 STRYD FAWR, ABERTEIFI (01239)612063
Y GIGYDDFA, CASTELL NEWYDD EMLYN (01239)710519

TORWYR CEIR TANYGROES

*Darnau i'r rhan fwyaf o geir*

Llun - Gwener: 9.00 - 6.00
Sadwrn: 9.00 - 1.30
Sul: 1.30 - 4.30

TANYFRON, TANYGROES, ABERTEIFI
Ffôn: Aberporth 811008

# STACAN YR AWEN

dan ofal Mary Jones

*Anfonwch eich cynigion i'r Stacan at maryjones@saqnet.co.uk*

Pe bae bywyd yn normal fe fyddai darllenwyr y Stacan, mae'n siŵr, â'u pennau yn y Cyfansoddiadau ers canol mis Awst, yn pwyso a mesur y canlyniadau llenyddol, ac yn fwy na hynny yn pwyso a mesur y beirniadaethau a'r beirniaid. Ond nid fel 'na mae hi eleni, mae llawer i fwlch wedi ei lenwi'n ddifyr iawn drwy gyfrwng technoleg. Fe fu'r Ŵyl AmGen yn llwyddiant mawr, a'r holl ddarlledu ar radio a theledu.

Ac mae gyda ni Gyfansoddiadau ar ffurf llyfr hefyd (mae ar y clawr blaen). Mae'n syniad arbennig o dderbyniol. Af fi ddim i fanylu, oherwydd byddwch naill ai wedi ei ddarllen neu ar fin gwneud hynny, rwy'n siwr.

Os na fydd eich cymdeithas neu'ch grŵp chi'n gallu trafod eleni, beth am ddefnyddio'r Gambo i ddechre trafodaeth?

Un o'r syniadau mwyaf difyr, efallai, oedd cael y tri brawd o Barc Nest i gyfansoddi cerdd am eu hatgofion o'r hen gartref. Fel y byddech yn ei ddisgwyl, mae yn y cerddi lawer iawn o hiwmor, felly, rwy wedi dewis pwt gan un ohonyn nhw i godi chwant arnoch chi. Dyma Aed yn cwyno'i fod yn mynd yn hen:

Dyna od yw mynd yn hen;
Diain o beth, a dyna her
Yw symud heb help zimmer.
Codi a thrin sopyn sydd
Yn anos i mi beunydd.
Helbul yw hwpo whilber,
Dal rhaw, codi claw, dal clêr.

Wy'n whip ac yn rhy hen
I roi dim ar y domen;
Plwco rhic, neidio sticil,
Herio bwch, ac agor bil.
Dim winshyn a dim mansher,
Neido gât na newid gêr.
Dim belo a dim bilwg.
A'th hi'n drist, mae'n wa'th na drwg.

Mae Hywel Ceri Jones yn dal i ddod o hyd i gerddi gan ei dad, a bydd yn eu cyhoeddi maes o law. Dyma englyn Gwilym Ceri i Ymryson y Beirdd:

Eu bwledi yw blodau – yr awen,
Clywch ru y cleciadau.
Cwpled am gwpled yn gwau
A dwyblaid yn eu dyblau.

Ac i'r Llwybr Troed:

Hyd war bryn a godre bro – trwy'r rhedyn
Trwy'r adwy ar dyno.
Dros y bompren at Gwenno
I ddôr nef ymddirwyn o.

Yn y Cyfansoddiadau hefyd mae cerdd gan Ceri Wyn Jones, eto'n dychwelyd i'w ieuenctid yn ei fro. Byddwch yn adnabod y llefydd mae'n sôn amdanyn nhw, siwr o fod, Dyma flas ichi:

A garet ti agor yr iet, hogyn,
I barc y plant drwg a rhannu mwgyn
ei feinciau caru? Neu i Fanc y Warin
â'i Bwyll a'i ryfel? Neu i'r cei hirfelyn?
neu'r iet lwyd i'r mart ola un, lle bo
crescendo'r bidio fel su gwybedyn?

Mae'r haf wedi bod yn doreithiog o lyfrau hefyd, ac mae yna ddigon i'n cadw o flaen y tân dros y gaeaf. Mae Alan Llwyd yn ein rhyfeddu bob tro â swmp ei gyhoeddiadau. Ychydig flynyddoedd yn ôl cawsom ei gofiant i R Williams Parry, 'Bob', ac yn ddiweddar ei gofiant i T Gwynn Jones, 'Byd Gwynn'. Nid eu gweithiau llenyddol yn unig sy'n cael sylw, ond hanes bywyd y ddau ŵr - hanesion digon anghyfarwydd i lawer ohonom, mae'n siwr. Os oes un o'r rhain heb gyrraedd eich tŷ chi eto, dyw hi byth yn rhy gynnar i baratoi rhester anrhegion Nadolig.


Cyhoeddir dwy gyfrol gan

**Donald Evans**

yn y dyfodol agos

**Trydan**

(Hunangofiant ffraeth o iasol)

**a**

**Sonede Llafar**

(Barddoniaeth wahanol iawn i'r arfer)

**£5 yr un**

# CORON YR EISTEDDFOD GENEDLAETHOL

Bryndewi
Llangrannog

Annwyl ddarllenwyr

Yn ddiweddar derbyniais lythyr oddi wrth ffrind, y Capten Gareth Davies (Skipton, Swydd Efrog a gynt o Amoria, Caerwedros). Ynddo roedd amryw o doriadau o'r `Teifi Seid` a gasglwyd gan ei fam, Gwyneth, dros y blynyddoedd, i'w dangos i'w gŵr, y Capten Tomi Davies, pan ddeuai adref.

Un o'r toriadau oedd o fis Mai 1954 `Coron yr Eisteddfod wedi ei darganfod`. Cyhoeddodd rhyw Mr William Harrison, casglwr o Abertawe, wythnos diwethaf (Mai 1954) fod ganddo yn ei feddaint Goron Eisteddfod Genedlaethol Cymru 1926. Fe'i prynodd ym 1936 oddi wrth gwmni o wystlwyr (pawnbrockers) yn Abertawe am dair punt.

`Deuthum o hyd iddi yn ddiweddar,` meddai Mr Harrison, `a phenderfynais ddatgan ei bod gyda mi. Enillwyd y goron gan Dewi Emrys (y Parchedig Dewi Emrys James) a dreuliodd ddyddiau olaf ei fywyd yn Nhalgarreg, ac a fu farw ddeunaw mis yn ôl'.

Dyma restr o brif fuddugoliaethau Dewi Emrys:

Y GORON: 1926 ABERTAWE - 'RHIGOLAU'R FFORDD FAWR'

CADEIRIAU: 1929 LERPWL - 'DAFYDD AP GWILYM'; 1930 LLANELLI - 'Y GALILEAD'; 1943 BANGOR - 'CYMYLAU AMSER'; 1948 PEN-Y-BONT AR OGWR - 'YR ALLTUD'

A oes rhywun erbyn hyn yn gwybod ble mae Coron 1926 a enillwyd gan Dewi Emrys, yn Eisteddfod Genedlaethol Abertawe?

Gyda diolch

Jon M O Jones


# Ysgol Gynradd Blaen-porth Llyfryn Dathlu

Pan drefnwyd nifer o ddigwyddiadau i ddathlu pen-blwydd Ysgol Gynradd Blaen-porth yn 150 oed yn 2010, cyhoeddwyd llyfryn lliwgar dan y teitl Calon a Chwlwm Cymuned. Roedd ynddo doreth o ffeithiau a gwybodaeth bwysig o ddogfennau am y fro a'i thrigolion o tua 1860. Roedd hefyd yn llawn lluniau difyr.

Dim ond hyn a hyn o gopïau gafodd eu hargraffu, a gwerthwyd y rheiny i gyd yn gyflym iawn ar y pryd. Ond mae pobol yn dal i holi am gopïau, felly, os oes gennych chi gopi neu gopïau dros ben, neu os oes rhai yn eich teulu nad ydyn nhw'n cael eu defnyddio bellach, byddwn yn falch iawn cael gwybod.

Gallwch gysylltu ar 01239 810409 a gellir trafod pris.

Diolch.



**Ar Draws**


8 Peth cyfarwydd iawn ym myd adloniant (8)
9 Modd o dynnu sylw (6)
10 Mae'r tŵr yma yn goleddfu (4)
11 Mae'r rhain yn dilyn trafodaeth 14 Ar Draws (10)
12 Sŵn ci (6)
13 Maent ar bob agenda (i'w trafod) (8)
14 Modd i'n cadw'n hapus (7)
16 Un o gystadlaethau pwysicaf yr Eisteddfod (7)
19 Yn y praidd, yr hawsaf ei niweidio (1,7)
22 Edrych ar ôl (6)
23 Cewch fwynhau hwylio yma (2,3,1,4)
24 Daw yn hawdd i dorrwr coed neu afanc (4)
25 'Pe bae hyn yn Godoli' (6)
26 'Clywyd llef yn Rama -------- a galaru dwys' (8)

**I Lawr**

1 'Mae cenhedlaeth ---- ---- a chenhedlaeth wedi dod' (4,4)
2 Carreg enwog (4)
3 Pentref poblogaidd ar y Teifi (6)
4 Lled-fynegi (7)
5 Un sy'n dal gwaddod (8)
6 Mawr iawn (6)
7 Priodas enwog ym myd opera (6)
15 Ceir yma eglwys enwog (8)
17 Difyrrwch pan fo rhew (8)
18 Arswydus (7)
20 Seremoni ynghlwm â 16 Ar Draws (6)
21 Sarrug, cecrus (6)
22 Cas gan natur hwn yn ôl y dywediad (6)
24 'Gweiniwyd ---- y cledd' (4)

Atebion Y Gambosair at John y Graig erbyn 30 Medi, 2020

**GAMBOSAIR**



*Atebion Gambosair Mis Mawrth*

Ar Draws: 2-Parot, 5-Cost, 7-Ffagl, 8-Lori bert, 9-Ynys Enlli, 11-Bwci, 12-Y Geiriadur Bach, 15-Asur, 17-Trafaeli, 19-Eu lampau, 21-Cynt, 22-Torch, 23-Amser

I Lawr: 1-Draenog, 2-Pol, 3-Pilen, 4-Tarddiad, 5-Cib, 6-Strôc, 10-Sgïwr, 11-Berfa, 13-Iwtopia, 14-Aflonydd, 16-Sgubo, 18-Addurn, 20-Arch, 21-Cwr.


Pritchard Cowburn
OPTEGYDD - OPTICIANS
RIP CURL · CAT · ANNA SUI · Silhouette · BVLGARI · Ray-Ban · HACKETT BESPOKE · Joules · Pepe Jeans LONDON · OAKLEY · TED BAKER LONDON
19 Pendre
Aberteifi
01239 612004
Spring Gardens
Arberth
01834 861660
www.pritchard-cowburn.com

Lewis-Rhydlewis
Cysylltwch â ni am wybodaeth bellach
**enquiries@lewis-rhydlewis.co.uk**
**01239 851386**

Ceredigion ~ Sir Benfro ~ Sir Gaerfyrddin
Trydanwyr Disglair Lleol
BarriDavies
trydanwr Cyf
a Rhosnewydd, Brynhoffnant, Llandysul, Ceredigion. SA44 6EA
t 01239 654135
m 07812 346150
e barri@bdelectrical.co.uk
w www.bdelectrical.co.uk




Argraffwyr E. L. Jones, Aberteifi 01239 612251 www.eljones.org.uk